



Arolygiaeth
Prawf EM

Arolygiad o'r gwasanaethau troseddau ieuencid ym

Mro Morgannwg

Arolygiaeth Prawf EM, Awst 2022

Cynnwys

Foreword	3
Ratings	5
Executive summary	6
Recommendations	9
Background	9
Contextual facts	12
1. Organisational delivery	14
1.1. Governance and leadership	16
1.2. Staff	19
1.3. Partnerships and services.....	22
1.4. Information and facilities	25
Diversity	27
2. Court disposals	28
2.1. Assessment	29
2.2. Planning.....	30
2.3. Implementation and delivery	31
2.4. Reviewing	32
3. Out-of-court disposals	33
3.1. Assessment	34
3.2. Planning.....	35
3.3. Implementation and delivery	36
3.4. Out-of-court disposal policy and provision	38
Annexe 1: Methodology	40
Annexe 2: Inspection data	41

Cydnabyddiaethau

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Mike Ryan, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a fu o gymorth i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; heb eu cymorth hwy a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

Rôl Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf EM yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf a throseddau ieuencid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygiad. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael ac yn defnyddo ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o safon uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Please note that throughout the report the names in the practice examples have been changed to protect the individual's identity.

© Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EM
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
[@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

ISBN: 978-1-914478-74-1

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation

Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau'r gwasanaeth troseddau ieuencid. Rydym wedi arolygu a rhoi sgôr i Dîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg ar draws tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth fel sefydliad, ansawdd y gwaith a wnaed gyda phlant sydd wedi eu dedfrydu gan y llysoedd ac ansawdd y gwaith datrysiadau tu allan i'r llys. Yn gyffredinol, rhoddwyd y sgôr 'Da' i Dîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg.

Gwelsom fod gan Dîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg nifer o elfennau sy'n dystiolaeth o sefydliad llwyddiannus iawn. Roedd sefydlogrwydd ar lefel y bwrdd, grŵp staff brwdfrydig a phrofiadol, a chyfres wedi datblygu'n dda o drefniadau partneriaeth. Mae'r defnydd a wneir o dechnoleg gwybodaeth yn addas i anghenion darparu'r gwasanaeth a gwelsom fod y brif adeilad a ddefnyddir gan y Tîm Troseddau Ieuencid yn addas i'r pwrpas.

Gwelsom arferion da yn gyffredinol yn y safonau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth sefydliadol, er ei fod yn anffodus bod ymdrechion bwrdd y Tîm Troseddau Ieuencid i wella ansawdd y gwasanaethau i blant yn barhaus fel petaent wedi oedi. Cafwyd cynnydd yn y dogfennau polisi allweddol a datblygiad yn dilyn cyfnod o oedi. Ond, maen nhw'n dal i fod ar ffurf drafft a byddem yn annog y bwrdd rheolwyr i ymdrin â'r materion hyn ar frys.

Mae gan y Tîm Troseddau Ieuencid gynllun datrysiadau tu allan i'r llys sydd wedi datblygu'n dda, ac maent yn defnyddio'r rhaglen asesu cynhwysfawr AssetPlus. Roedd meysydd da o waith asesu; ond, oedd rhywfaint o anghysondeb yn y gwaith i gadw'r plentyn yn ddiogel ac roedd hyn wedi ei waethgu gan y ffaith nad oedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn ddigonol ac nad oeddent yn ddigon trwyadl. Byddem yn annog y Tîm Troseddau Ieuencid i sicrhau bod asesiadau ar gyfer gwaith y tu allan i'r llys yn mynd i'r afael â diogelwch a lles y plentyn bob tro.

Roedd y gwaith ar ôl y llys o safon dda yn y mwyafrif o'i agweddau, ac yn arbennig o gryf mewn perthynas â gweithredu a darparu gorchmynion llys. Cynlluniwyd y gwaith ar sail cryfderau ac roedd dystiolaeth bod cynlluniau amlasiantaeth yn alinio'n dda. Roedd staff y Tîm Troseddau Ieuencid yn darparu ymyriadau priodol, yn aml mewn cysylltiad ag asiantaethau partner, gan gadw ffocws da ar ddiogelwch a lles plant a diogelwch pobl eraill.

Mae'n anogol bod y Tîm Troseddau Ieuencid wedi derbyn sgôr cadarnhaol ymhob un bron o'n cwestiynau am amrywiaeth y plant yn ein harolygiadau manwl o waith achos. Mae angen ailadrodd hyn yn awr ar lefel strategol gyda gweithrediad y polisi 'ymdrin ag anghyfartaledd'.

I helpu'r Tîm Troseddau Ieuencid i weithio tuag at ganlyniadau mwy uchelgeisiol i'r plant y mae'n gweithio â nhw, rydym wedi darparu chwe argymhelliad a fydd, yn ein barn ni, yn gyrru gwelliant pellach.



Justin Russell
Prif Arolygydd Prawf EM

Cyfraddau

**Dechreuodd Gwaith Maes Tîm
Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg:**
Mai 2022

Sgôr 22/36

Sgôr cyffredinol

Da



1. Darpariaeth sefydliadol

1.1 Llywodraethiant ac arweiniad

Angen gwella



1.2 Staff

Da



1.3 Partneriaethau a gwasanaethau

Da



1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau

Da



2. Datrysiadau llys

2.1 Asesiad

Da



2.2 Cynllunio

Da



2.3 Gweithrediad a darpariaeth

Rhagorol



2.4 Adolygu

Da



3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

3.1 Asesiad

Annigonol



3.2 Cynllunio

Da



3.3 Gweithrediad a darpariaeth

Da



3.4 Darpariaeth a pholisi datrysiad y tu allan i'r llys

Da



Crynodeb gweithredol

Yn gyffredinol, mae Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg yn cael y sgôr 'Da'. Cafodd y sgôr hwn ei bennu drwy arolygu'r Tîm Troseddau Ieuencid mewn tri maes o'i waith, y cyfeirir atynt fel 'parthau'. Rydym yn arolygu yn erbyn 12 'safon' graidd, sydd wedi eu rhannu rhwng y parthau. Mae'r safonau wedi eu seilio ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi eu gwreiddio mewn tystiolaeth, dysgu a phrofiad. Maen nhw wedi eu llunio i yrru gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.¹ Mae rheolau sgorio a gyhoeddwyd yn cynhyrchu sgôr cyffredinol y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.² Mae'r canfyddiadau a'r sgorau dilynol yn y parthau hynny wedi eu disgrifio isod.

Darpariaeth sefydliadol

Gwnaethom 14 cyfweiliad gyda grwpiau o staff, partneriaid a rhanddeiliaid. Dyma oedd y canfyddiadau allweddol:

- Mae gan y bwrdd gadeirydd sy'n brofiadol ac sydd â chysylltiadau da
- Mae'r asiantaethau partner i gyd wedi eu cynrychioli ar lefel briodol o uchel
- Mae tystiolaeth dda i ddangos bod aelodau'r bwrdd yn gallu eirioli ar ran y Tîm Troseddau Ieuencid er mwyn cynnal neu wella'r gwasanaethau i'r plant
- Mae'r trefniadau partneriaeth wedi eu ffurfioli a'u monitro'n effeithiol gan y bwrdd rheoli
- Mae yno dîm rheoli profiadol, gydag arweinydd newydd sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad uchelgeisiol gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid
- Mae llwythi gwaith y staff ar lefel lle mae'n rhesymol i ddisgwyl i waith o safon uchel gael ei ddarparu
- Mae amrywiaeth o wasanaethau partneriaeth ar gael, ac mae'r rhain yn hygyrch i'r plant
- Defnyddir data'n dda gan Dîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg, yn arbennig i ddarparu adroddiadau i'r bwrdd rheoli.

Ond:

- Mae'r weledigaeth ar gyfer gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid yn parhau i fod ar gam drafft yn ei datblygiad, yn bennaf oherwydd newidiadau yn y tîm rheoli
- Wrth ddatblygu gweledigaeth y bwrdd, mae angen cael ffocws o'r newydd ar ateb anghenion amrywiol plant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid drwy fireinio, cadarnhau a gweithredu'r polisi 'ymdrin ag anghyfartaledd'

¹ Gallwch weld safonau Arolygiaeth Prawf EM yma:

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/>

² Mae pob un o'r 12 safon wedi eu sgorio ar raddfa 0–3 lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; 'Rhagorol' = 3. Mae ychwanegu'r sgorau hyn yn cynhyrchu sgôr cyfan sy'n amrywio o 0 i 36, sydd wedi eu bandio i gynhyrchu'r sgôr cyffredinol, fel a ganlyn: 0–6 = 'Annigonol', 7–18 = 'Angen gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Rhagorol'.

- Mae angen i'r polisi adsefydlu gael ei ddatblygu ymhellach a'i gadarnhau gan y bwrdd i sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas
- Nid yw lleisiau'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr wedi eu cynrychioli'n ddigonol ar lefel y bwrdd
- Nid yw goruchwyliaeth y bwrdd yn gryf ar y ddarpariaeth arolygiad achosion effeithiol
- Nid yw goruchwyliaeth y rheolwyr dros y gwaith yn meithrin chwilfrydedd proffesiynol yn ddigon da
- Mae'r mynediad yn gyfyngedig i asesiadau amserol o anghenion iaith a lleferydd plant a mewnbwn gan therapyddion, ac mae hwn yn faes y mae angen i'r bartneriaeth ei datblygu.

Datrysiadau llys

Cawsom olwg manwl ar dair dedfryd gymunedol a reolwyd gan y Tîm Troseddau Ieuencid. Hefyd gwaethom dri chyfweliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Aethom ati i archwilio ansawdd yr asesiad; y cynllunio; gweithrediad a darpariaeth gwasanaethau; a'r adolygu. Cafodd bob un o'r elfennau hyn eu harchwilio mewn perthynas â gwaith a wnaed i ymdrin â pheidiad, i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i gadw pobl eraill yn ddiogel.

Dyma ein prif ganfyddiadau am ddatrysiadau llys:

- Roedd gwaith asesu wedi ei seilio ar ddealltwriaeth dda o amgylchiadau'r plentyn unigol
- Lle bo'n briodol, bu rheolwyr achos yn ystyried gwybodaeth a safbwyntiau asiantaethau eraill wrth wneud asesiad o'r plentyn
- Mae'r gwaith cynllunio wedi ei seilio ar gryfderau. Mae cyfranogaeth dda gan asiantaethau eraill a thystiolaeth o gynlluniau amlasiantaeth yn alinio'n dda
- Roedd y gwaith a ddarparwyd i'r plentyn wedi ei seilio'n dda mewn tystiolaeth; roedd yn blentyn-ganolog, wedi ei hysbysu gan drawma ac wedi ei seilio ar egwyddorion adferol
- Roedd gwasanaethau allweddol fel cymorth gydag iechyd meddwl ac ymyriadau cam-drin sylweddau ar gael yn gyflym
- Roedd ein disgwyliadau bod anghenion amrywiol y plant yn cael eu deall ac y gweithredir arnynt wedi eu cyflawni ymhob amgylchiad bron iawn
- Roedd lleisiau plant a'u rhieni neu ofalwyr wedi eu hymgorffori ymhob agwedd o'r rheolaeth achosion

Ond:

- Nid oedd rheolwyr achos bob amser yn gweld y risg cynyddol posibl o niwed i eraill
- Nid oedd goruchwyliaeth rheolwyr dros waith y rheolwyr achos bob amser yn helpu i ganfod y risg o niwed i eraill mewn asesiadau, cynllunio neu adolygu yn yr achosion a arolygwyd.

Datrysiadau y tu allan i'r llys

Aethom ati i archwilio tri achos a reolwyd gan y Tîm Troseddau Ieuentid oedd wedi derbyn datrysiad y tu allan i'r llys. Yr achosion hyn oedd un rhybudd ieuentid a dau ddatrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweiliad â'r rheolwyr achos yn y tri achos.

Gwnaethom archwiliad o ansawdd yr asesiad; y cynllunio; a gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau. Cafodd pob un o'r elfennau hyn eu harolygu mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i ymdrin â pheidiad, i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i gadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir i bob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol ar gyfer pob agwedd o oruchwyliaeth er mwyn cael ei sgorio'n foddhaol.

Rydym hefyd wedi arolygu ansawdd polisi a darpariaeth sydd yn ei le ar gyfer datrysiadau tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweiliadau.

Dyma ein prif ganfyddiadau am ddatrysiadau y tu allan i'r llys:

- Defnyddir rhaglen asesu briodol (AssetPlus) ymhob achos a gyfeirir at y Tîm Troseddau Ieuentid cyn iddo fynd at banel gwneud penderfyniadau
- Mae'r panel yn gwneud penderfyniadau ar y cyd, ac mae gweithdrefn uwchgyfeirio priodol os nad yw'n dod i gytundeb
- Mae polisi tu allan i'r llys y Tîm Troseddau Ieuentid wedi gyrru dull amrywiaethu, a chafwyd dirywiad nodedig yn y nifer o unigolion oedd yn dod i'r system am y tro cyntaf
- Cafodd y mwyafrif o agweddau'r gwaith cynllunio eu gwneud i safon uchel
- Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd i'r plant yn hyblyg ac wedi eu personoli
- O fewn y bartneriaeth mae cyd-ethos o ddulliau plentyn-ganolog, wedi eu hysbysu gan drawma, o ddeall a gweithio gyda'r plant.

Ond:

- Nid yw'r polisi y tu allan i'r llys yn ymdrin â sut i adnabod, deall a rheoli amrywiaeth y plant
- Nid yw'r gwaith asesu'n rhoi digon o sylw i faterion sy'n ymwneud â diogelwch a lles y plant a'r risg o niwed i eraill y gallai plentyn ei gyflwyno
- Nid yw goruchwyliaeth rheolwyr o achosion yn ddigon trwyadl i hyrwyddo chwilfrydedd proffesiynol
- Nid oes mecanwaith ar gyfer casglu barn plant a'u rhieni neu ofalwyr am eu profiad yn y cynllun.

Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud chwe argymhelliad a fydd, gredwn ni, os bydd yn cael ei weithredu, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid ym Mro Morgannwg. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddau ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

Dylai Tîm Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg:

1. sefydlu gweledigaeth ac uchlegais y sefydliad o fewn y 12 mis nesaf
2. cadarnhau a gweithredu polisi adsefydlu'n effeithiol o fewn y 12 mis nesaf
3. mabwysiadu polisi anghyfartaledd gyda chynlluniau gweithredu wrth law o fewn y 12 mis nesaf
4. datblygu dulliau o ymgorffori safbwyntiau plant a'u rhieni neu ofalwyr yn natblygiad y bwrdd o waith y Tîm Troseddau Ieuenctid dros y 12 mis nesaf
5. datblygu dulliau o ymgysylltu aelodau o staff yn y gwaith o ddatblygu polisi a gwasanaethau o fewn y 12 mis nesaf
6. gwella ansawdd yr oruchwyliaeth gan reolwyr ar achosion i ymdrin â gwendidau wrth reoli diogelwch a lles y plant a'r risg o niwed i eraill.

Cefndir

Mae Timau Troseddau Ieuencid yn gweithio gyda phlant 10 i 18 oed sydd wedi eu dedfrydu gan lys, neu sydd wedi dod i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol, ond sydd heb gael eu cyhuddo – yn hytrach, cawsent eu trin y tu allan i'r llys. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'r ddau agwedd yma o'r gwasanaethau troseddau ieuencid.

Mae'r Timau Troseddau Ieuencid yn bartneriaethau statudol, ac maen nhw'n amlddisgyblaethol, i ymdrin ag anghenion y plentyn cyfan. Mae gofyn iddyn nhw gael staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a gwasanaethau iechyd lleol.³Mae'r rhan fwyaf o'r Timau Troseddau Ieuencid wedi eu seilio o fewn awdurdodau lleol, er y gallai hyn amrywio.

Mae gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid wedi ei lywodraethu a'i siapio gan ystod o ddeddfwriaeth ac arweiniad sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuencid (fel y Safonau Cenedlaethol i Gyfiawnder Ieuencid) neu fel arall yn berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft, arweiniad Trefniadau Diogelu Cyhoeddus Amlasiantaeth). Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i Gymru a Lloegr yn darparu rhywfaint o arian i Dimau Troseddau Ieuencid. Mae hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn cyhoeddi arweiniad iddynt ynglŷn â sut y mae pethau i gael eu gwneud.

Mae Bro Morgannwg, y cyfeirir ati'n aml fel y 'Fro', yn fwrdeistref sirol ar arfordir de-ddwyreiniol Cymru. Ei chymydog dwyreiniol yw prifddinas Cymru, Caerdydd; ond, mae'n ymestyn dros ardal lawer mwy gwledig o 335 cilomedr sgwâr, wedi ei chreu o drefi bach, pentrefi, pentrefannau, ffermydd, llwybrau cerdded arfordirol, parciau gwyliau a thraethau. Mae pencadlys y sir wedi ei seilio yn y Bari, sef tref fwyaf y Fro sydd â phoblogaeth o 51,502. Mae'n cynnwys y traeth enwog, difyrion i'r teulu a pharc pleser Ynys y Bari. Mae ardal amrywiol y Fro yn cynnwys cymunedau gwahanol iawn gyda gwahanol lefelau o gyfoeth ac amddifadedd cymdeithasol, strwythurau cymdeithasol, uchelgeisiau, anghenion a phryderon.

Gellir gweld gwahaniaethau go iawn rhwng ardaloedd, ac mewn rhai ardaloedd mwy difreintiedig amcangyfrifir bod 38 y cant o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm a bod 53 y cant o blant yn byw mewn tloidi. Mae tystiolaeth o gysylltiadau rhwng tloidi plant a phrofiadau niweidiol mewn plentyndod, gyda chanlyniadau tlotach cysylltiedig i blant, yn cynnwys troseddu.

Mae ystod o broblemau sy'n gallu effeithio ar les cymdeithasol unigolion a chymunedau, ac sy'n berthnasol i'r gwasanaethau. Er enghraifft, mae gan 16 y cant o ddisgyblion oed ysgol angen dysgu ychwanegol (ADY). Y grwpiau Anghenion Dysgu Ychwanegol mwyaf yw'r plant a phobl ifanc gydag anawsterau dysgu.

Mae Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg yn rhan integrol o'r Gwasanaeth Plant a Pobl Ifanc ac mae'n gweithio'n agos ag asiantaethau statudol partner a mudiadau gwirfoddol. Mae'n canolbwyntio ar atal a dargyfeirio, gan gymryd agwedd gyfannol tuag at ddargyfeirio plant a phobl ifanc oddi wrth troseddu ac aildroseddu.

³ Mae *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998* yn nodi'r trefniadau ar gyfer Timau Troseddau Ieuencid lleol a gwaith partneriaeth.

Ochr yn ochr ag alinio â gwasanaethau awdurdod lleol, yn cynnwys addysg a thai, mae cyfres gref a gweithredol o gysylltiadau gwaith gyda Heddlu De Cymru, y gwasanaeth prawf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r sector gwirfoddol a chymunedol.

O ran dangosyddion perfformiad allweddol, mae nifer y rhai sy'n dod i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf yn lleihau, mae cyfradd yr aildroseddu'n gostwng, ac nid oes dedfryd o ddalfa wedi ei rhoi i blentyn ers mwy na dwy flynedd.

Mae gan Dîm Troseddau Ieuentid Bro Morgannwg ddealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda o nodweddion y plant, sydd wedi eu cyflwyno fel 'Proffil cohort Gwasanaeth Troseddau Ieuentid Bro Morgannwg'. Mae hyn yn cynnwys coladu data am holl nodweddion gwarchoddedig y plant. Gan adlewyrchu'r boblogaeth leol, mae llwyth achosion y Tîm Troseddau Ieuentid yn ymwneud yn bennaf â phlant gwyn.

Gwelwyd cynnydd yn ddiweddar yn y gyfran o ferched yn y llwyth achosion ac mae 'cynllun gweithredu Merched' cynhwysfawr wedi ei ddatblygu.

Ffeithiau cyd-destunol

Gwybodaeth am y boblogaeth⁴

150	Cyfradd y rhai sy'n dod i'r system am y tro cyntaf fesul 100,000 ym Mro Morgannwg ⁵
16	Cyfradd y rhai sy'n dod i'r system am y tro cyntaf fesul 100,000 yng Nghymru a Lloegr
45.7%	Y gyfradd aildroseddu ym Mro Morgannwg ⁶
34.2%	Y gyfradd aildroseddu yng Nghymru a Lloegr
135,295	Poblogaeth gyfan Bro Morgannwg
12,862	Cyfanswm y boblogaeth ieuentid (10-17 oed) ym Mro Morgannwg

Gwybodaeth am y llwyth achosion⁷

Pobl ifanc a rybuddwyd neu a ddedfrydwyd yn ôl oedran

Oed	10–14 oed	15–17 oed
Gwasanaeth Troseddwyd Ifanc Bro Morgannwg	27%	73%
Y cyfartaledd cenedlaethol (Cymru)	18%	82%

Canran y plant yn llwyth achosion y Tîm Troseddwyd Ifanc

Hil/ethnigrwydd ⁸	Gwyn	Du a lleiafrifoedd ethnig	Anhysbys
Gwasanaeth Troseddwyd Ifanc Bro Morgannwg	89.7%	11.3%	0%
Poblogaeth yr ieuentid (10-17 oed) ym Mro Morgannwg	96.5%	3.5%	0%

Canran llwyth achosion y Tîm Troseddwyd Ifanc yn ôl rhywedd⁹

⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Mehafin 2021). *Amcangyfrifon poblogaeth y DU, canol-2020*.

⁵ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid. (2022). *Unigolion sy'n dod i'r system am y tro cyntaf, mis Ionawr i fis Rhagfyr 2020*.

⁶ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (Ionawr 2022). *Ystadegau aildroseddu wedi eu profi, mis Ebrill 2019 hyd fis Mawrth 2020*.

⁷ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid. (Ionawr 2022). *Ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuentid: 2020 hyd 2021*.

⁸ Darparwyd y data gan y Tîm Troseddau Ieuentid.

⁹ Darparwyd y data gan y Tîm Troseddau Ieuentid.

Rhywedd	Dynion	Merched
Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Bro Morgannwg	81.5%	18.5%

Data ychwanegol am y llwyth achosion¹⁰

109	Cyfanswm y llwythi achosion cyfredol, ac o'r rhain:
21	Datrysiadau llys
88	Datrysiadau y tu allan i'r llys

O'r 21 datrysiad llys:

20	Cyfanswm y llwythi achosion cyfredol: dedfrydau cymunedol
0	Cyfanswm y llwythi achosion cyfredol yn y ddalfa
1	Cyfanswm y llwythi achosion cyfredol ar drwydded

Datrysiadau tu allan i'r llys:

88	Cyfanswm y llwythi achosion cyfredol
14	Cyfanswm y rhybuddion ieuenctid
6	Cyfanswm y rhybuddion ieuenctid amodol
68	Cyfanswm y datrysiadau cymunedol

Statws y llwythi achosion addysg a diogelu plant:

34.8%	Y gyfran o 'Blant sy'n Derbyn Gofal' yn y llwythi achosion cyfredol sy'n byw yn ardal y gwasanaeth troseddwyr ifanc, neu sydd â chynllun diogelu plant neu gynllun plentyn mewn angen
36.4%	Y canran o'r llwythi achosion cyfredol sy'n 16 oed neu'n iau mewn ysgol lawn amser
63.6%	Y canran o blant 16 oed ac iau sydd mewn uned atgyfeirio disgyblion, addysg amgen neu sy'n mynd i'r ysgol yn rhan amser
13%	Y canran o'r llwythi achosion cyfredol 17+ oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth

¹⁰ Darparwyd y data gan y Tîm Troseddau Ieuenctid, gan adlewyrchu'r llwythi achosion ar adeg cyhoeddi'r arolygiad.

1. Darpariaeth sefydliadol

Mae ein sgôr am y gyfres hon o safonau wedi ei seilio ar adolygiad o dystiolaeth a ddarperir cyn yr arolygiad, ac 14 cyfweiliad â staff, gwrifoddolwyr, sefydliadau partneriaeth a rhanddeiliaid allweddol.

Hefyd, gwnaethom arolygiadau ar-lein o staff, gwrifoddolwyr, plant a'u teuluoedd a'r llys ynadon.

Mae hwn yn fwrdd rheoli sefydledig, gyda nifer dda o aelodau'n mynychu sydd ar lefel addas o uchel o fewn eu sefydliadau eu hunain. Fodd bynnag, roedd ymyrraeth y pandemig ynghyd â newid yn rheolaeth uwch y Tîm Troseddau Ieuencid yn herio gallu'r bwrdd i ddatblygu meysydd newydd o waith. Wrth i effaith Covid-19 ostwng, mae'r bwrdd mewn sefyllfa well erbyn hyn i ymdrin â'i flaenoriaethau. Dylai hyn gael ei wella gan benodiad diweddar pennaeth gwasanaeth newydd.

Er ein bod yn ystyried bod llywodraethiant ac arweiniad y Tîm Troseddau Ieuencid yn effeithiol gan fwyaf a bod ganddo'r potensial i yrru gwelliannau yn y gwasanaeth, roeddem yn pryderu am y llwyth wrth gefn o ddatblygiadau polisi allweddol, y mae angen iddynt oll gael eu tanategu gan ddatganiad clir o weledigaeth ac uchelgais y Tîm Troseddau Ieuencid.

Mae'r staff gweithredol yn grŵp profiadol, ymroddedig wedi ei hyfforddi'n dda. Roedd y staff yn hyderus y byddai eu rheolwr uwch newydd yn ddylanwad cadarnhaol ar y gwaith wrth fynd ymlaen. Mewn perthynas â'r bwrdd, roedd barn nad oedd y grŵp o staff wedi cael eu "cynnwys a'u galluogi i gyfranogi" yn hanesyddol. Roedd y staff yn argyhoeddedig y byddai eu trefniadau rheoli newydd yn gwneud gwahaniaeth nodedig.

Gwelsom fod y trefniadau partneriaeth a gwasanaethau'n gweithredu'n dda ym Mro Morgannwg. Roedd y gwasanaethau oedd ar gael i'r plant o ansawdd da ac yn cefnogi gweithio ymatebol. Fodd bynnag, nid oedd mynediad at waith arbenigol e.e. asesiad iaith a lleferydd neu therapi, mor gyflym ag a fyddai'n ofynnol i lawer o'r plant.

Gwelsom fod y cyfleusterau lle'r oedd y gwaith yn digwydd o safon dderbyniol ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

Roedd y data a gyflwynwyd i'r bwrdd yn hygyrch ac yn amrywiol o ran arddull ei gyflwyniad – defnyddiwyd dogfennau, PowerPoint a ffeithluniau. Roedd cyflwyniad proffil anghenion y plant yn arbennig o effeithiol, ac yn dangos yr amrywiaeth o broblemau sy'n wynebu plant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid.

Dyma oedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol:

Cryfderau

- Mae cadeirydd bwrdd profiadol sydd â chysylltiadau da.
- Mae'r holl asiantaethau partner wedi eu cynrychioli ar lefel briodol o uchel.
- Mae tystiolaeth dda y gall aelodau'r bwrdd eirioli ar ran y Tîm Troseddau Ieuencid er mwyn cynnal neu wella'r gwasanaethau i'r plant.
- Mae trefniadau partneriaeth yn cael eu ffurfioli a'u monitro'n effeithiol gan y bwrdd rheoli.

- Mae tîm rheoli profiadol, gydag arweinydd newydd sy'n ymroddedig i ddatblygiad uchelgeisiol gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid.
- Mae llwythi gwaith y staff ar lefel lle mae'n rhesymol disgwyl i waith o ansawdd uchel gael ei ddarparu.
- Mae amrywiaeth o wasanaethau partneriaeth ar gael, ac mae'r rhain yn hygyrch i'r plant.
- Defnyddir data'n dda gan Dîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg, yn arbennig wrth ddarparu adroddiadau i'r bwrdd rheoli.

Meysydd i'w gwella

- Mae'r weledigaeth ar gyfer gwaith Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg yn parhau ar gam drafft ei datblygiad, a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau yn y tîm rheolwyr.
- Wrth ddatblygu gweledigaeth y bwrdd, mae angen cael ffocws o'r newydd ar ateb anghenion amrywiol plant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid drwy fireinio, cadarnhau a gweithredu'r polisi 'ymdrin ag anghyfartaledd'.
- Mae angen i'r bwrdd rheoli fabwysiadu a chyflwyno'r polisi adsefydliad.
- Nid yw lleisiau'r plant a'u rhieni neu ofalwyr wedi eu cynrychioli'n ddigonol ar lefel y bwrdd.
- Nid yw goruchwyliaeth y bwrdd yn gryf dros yr arolygiad effeithiol ar achosion.
- Nid yw goruchwyliaeth rheolwyr dros waith yn annog rheolwyr achosion i ddangos chwilfrydedd proffesiynol.
- Mae mynediad cyfyngedig i asesiad amserol o anghenion iaith a lleferydd plant a mewnbwn gan therapyddion.

Mae sefydliadau sydd wedi eu harwain yn dda a'u rheoli'n dda yn fwy tebygol o gyflawni eu hamcanion, Rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

1.1. Llywodraethiant ac arweiniad



Mae llywodraethiant ac arweiniad y Tîm Troseddau Ieuencid yn cefnogi ac yn hyrwyddo darparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel sydd wedi'i bersonoli i bob plentyn.

Angen
Gwella

Data allweddol

Y gwariant cyfan yn y flwyddyn ariannol flaenorol	£1,295,795
Y gyllideb gyfan a ragwelir sy'n gyfredol ar gyfer y flwyddyn ariannol	£1,287,467

Wrth farnu'r llywodraethiant a'r arweiniad, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn a ganlyn:

A oes gweledigaeth a strategaeth leol effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel sydd wedi'i bersonoli i bob plentyn?

Mae'r weledigaeth ar gyfer gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid yn parhau ar gam drafft o'i datblygiad, yn bennaf oherwydd newidiadau i'r tîm rheoli. Fodd bynnag, drwy gydol y bartneriaeth mae teimlad o weithio tuag at amcanion sydd wedi eu rhannu gyda'r plant. Mae diwylliant cadarnhaol mewn perthynas â gweithio gyda phlant. Mae staff ar draws y bartneriaeth yn dangos ymrwymiad i'r egwyddor o weld y plentyn fel 'plentyn yn gyntaf' a'r ymddygiad troseddol yn ganlyniad fel arfer i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae hyn, wedi ei gyfuno ag agwedd adferol cynhwynol, yn arwain at ystyried bod y gwaith gyda phlant yn ymwneud ag adnabod a hyrwyddo cryfderau ym mywyd y plentyn.

Cadeirydd y bwrdd yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg. Yn y rôl hon, mae'r cadeirydd yn sicrhau bod gan y Tîm Troseddau Ieuencid gysylltiadau da gyda'r holl asiantaethau strategol lleol a rhanbarthol y mae'r gwasanaethau wedi eu comisiynu a'u datblygu drwyddynt. Mae gan y cadeirydd ddealltwriaeth glir o waith y Tîm Troseddau Ieuencid ac mae'n meithrin synnwyr cryf o ymgysylltiad ac ymrwymiad ymysg aelodau'r bwrdd.

Mae bwrdd egniol gyda nifer dda'n mynychu ac mae'r aelodau'n deall eu rôl ac yn deall beth mae eu cyfraniad yn ei olygu i ddarpariaeth gwasanaethau'r Tîm Troseddau Ieuencid. Mae'r partneriaid statudol i gyd yn ymgysylltu â'r bwrdd rheoli, ac mae'r sector gwirfoddol wedi ei gynrychioli hefyd gan Ganolfan y Fro ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol (VCSV).

Mae gan Gynllun Cyfiawnder Ieuencid Bro Morgannwg gyfres glir o amcanion a chymau gweithredu i fonitro gor-gynrychiolaeth grwpiau penodol ar lwyth achosion y Tîm Troseddau Ieuencid; mae'n pwysleisio gwaith gyda merched ar gefndir cynnydd mawr mewn atgyfeiriadau i lwyth achosion y Tîm Troseddau Ieuencid ac mae'r gwaith yma'n parhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n ymdrin ag anghenion y plant hyn.

Nid yw lleisiau'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr wedi eu cynrychioli'n ddigonol ar lefel y bwrdd a gwelsom bod hwn yn faes o waith y bwrdd sydd heb ei ddatblygu'n

ddigonol. Yn sicr, byddem yn disgwyl i'r bwrdd Tîm Troseddau Ieuentid ddatblygu dulliau o gasglu barn plant a'u rhieni neu ofalwyr pan fydd ymyrraeth y Tîm Troseddau Ieuentid wedi eu gwblhau, ac i sicrhau bod y barnau hyn yn hysbysu darpariaeth y gwasanaeth.

Mae angen cryfhau'r ddolen rhwng y bwrdd a darparu goruchwyliaeth achosion effeithiol er mwyn cefnogi gwybodaeth yr aelodau ynglŷn â sut mae bwriad strategol yn trosi i ddarparu gwasanaethu effeithiol. Cyn y pandemig, gwnaeth y bwrdd waith datblygiadol gyda'r grŵp staff. Byddem yn gobeithio bod y math hwn o waith yn cael ei ailgychwyn.

A yw'r trefniadau partneriaeth yn mynd ati'n weithredol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol?

Rhoddodd aelodau'r bwrdd dystiolaeth glir eu bod yn cefnogi gwaith y Tîm Troseddau Ieuentid o fewn eu hasiantaethau eu hunain. Gwelodd y bwrdd rheoli ddiffygion yn y mynediad at ddarpariaeth addysg a gwasanaethau iechyd meddwl i blant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuentid a gwnaeth iawn am hyn drwy sicrhau trefniadau gweithio gwell gyda staff ar secondiad. Yn ein harolygiadau achos gwelsom dystiolaeth glir o gymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i'r plant, a goruchwyliaeth aml-asiantaeth o'r gwaith.

Mae aelodaeth bwrdd y Tîm Troseddau Ieuentid yn alinio'n dda gyda threfniadau gweithio strategol lleol a rhanbarthol, drwy Fyrddau Diogelu a Phartneriaeth Diogelwch Cymuned Bro Morgannwg (yn lleol a rhanbarthol).

Mae rolau a chyfrifoldebau staff ar secondiad wedi eu ffurfioli mewn cytundebau lefel gwasanaeth neu brotocolau gwasanaeth.

Mae monitro mesurau perfformiad allweddol y Tîm Troseddau Ieuentid yn sail dda ar gyfer hwyluso darpariaeth gwaith effeithiol. Mae'r adroddiadau i'r bwrdd wedi eu nodi'n glir ac maent yn hygyrch.

Wrth ddatblygu ei weledigaeth, mae angen i'r bwrdd gael ffocws o'r newydd ar ateb anghenion amrywiol plant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuentid. Mae'r polisi anghyfartaledd mewn ffurf drafft ar hyn o bryd.

A yw arweinyddiaeth y Tîm Troseddau Ieuentid yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol?

Mae gan y Tîm Troseddau Ieuentid dîm rheoli profiadol ac ymroddedig gydag adnoddau da, ac mae'r pennaeth gwasanaeth a benodwyd yn ddiweddar yn darparu'r cysylltiad allweddol rhwng y staff a'r bwrdd. Nodwyd bod y tîm staff yn teimlo bod bwch wedi bodoli ar ochrau gweithredol a strategol y sefydliad, ond serch hynny roedd optimistaeth bod y trefniadau rheoli newydd yn debygol o wella perthnasoedd.

Er nad oes datganiad gweledigaeth wedi ei ddogfenu, roedd trafodaethau gyda staff yn awgrymu bod pwrpas cyffredin ar draws y bartneriaeth ar bob lefel. Roedd ymrwymiad clir i ddealltwriaeth, wedi ei hysbysu gan drawma, o ymddygiad y plant. Roedd y staff i gyd yn amcannu i weithio mewn ffordd oedd yn rhoi anghenion y plentyn yn gyntaf.

Yn unol â'r agwedd hon, mae'r Tîm Troseddau Ieuentid wedi symud fwy a mwy tuag at waith atal a dargyfeirio gyda phlant y credir eu bod o dan risg o droseddu neu o gael eu gwahardd o'r ysgol. Mae adnoddau da ar gyfer y gwaith hwn, sy'n cynnwys tri swyddog atal llawn amser.

Mae gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cael ei fonitro drwy agwedd 'proffil risg' cynhwysfawr. Mae'r dull hwn yn dangos yn glir y flaenoriaeth uchel y mae'r bwrdd yn ei rhoi i waith pellach yn ymwneud â chydraddoldeb darpariaeth.

1.2. Staff



Mae'r staff o fewn y Tîm Troseddau Ieuencid wedi eu grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel sydd wedi'i bersonoli i bob plentyn.

Da

Data staffio allweddol¹¹

Cyfrifiad pen y staff cyfan (cyfatebol ag amser llawn(CALI))	30
Cyfrifiad pen y rheolwyr achos cymwysedig cyfan (CALI) ¹²	7.4
Cyfradd y swyddi gwag (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfrif pennau'r staff i gyd)	12%
Llwyth achos cyfartalog fesul rheolwr achos (cyfatebol ag amser llawn) ¹³	7.14
Nifer cyfartalog o ddiwrnodau gwaith o salwch yn flynyddol (y staff i gyd)	13
Athreuliad y staff (y canran o'r holl staff sy'n gadael mewn cyfnod o 12 mis)	23%

Wrth wneud beirniadaeth am staffio, rydym yn cymryd i ystyriaeth yr atebion i'r pum cwestiwn a ganlyn:

A yw'r lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth ymatebol, o safon uchel sydd wedi'i bersonoli i bob plentyn.?

Mae gan reolwyr achos lwythi gwaith rhesymol (saith i 12 achos) ac mae'r rhain yn cael eu rheoli'n weithredol mewn cyfnodau o straen. O'r staff a arolygwyd, dywedodd wyth allan o naw eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion; a dywedodd saith allan o wyth eu bod o leiaf 'i ryw raddau' yn ddigon cymwysedig a phrofiadol i reoli eu hachosion. Rydym yn ystyried bod y lefel staffio'n ddigonol i ni ddisgwyl i wasanaethau o ansawdd uchel gael eu darparu i bob plentyn sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid.

Yn ein barn ni, mae digon o allu rheoli i gefnogi darpariaeth gwasanaethau o ansawdd uchel Mae trefniadau arolygu a sicrhau ansawdd cynhwysfawr, ac eto mae profiad ymarferwyr yn awgrymu bod y rhain yn canolbwyntio fwy ar y broses na myfyrio ar ansawdd y gwaith gyda phlant unigol, a gwelsom fod angen goruchwyliaeth reoli fwy trwyadl i sicrhau ansawdd y gwaith gyda phlant.

Roedd gwasanaethau'r Tîm Troseddau Ieuencid wedi eu cynnal yn effeithiol o fewn cyfyngiadau modelau darparu Covid-19. Ar adeg yr arolwg, roedd gan yr awdurdod lleol rai cyfyngiadau gweddilliol yn rheoli cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

¹¹ Darparwyd y data gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid ac roedd yn adlewyrchu'r staffio ar adeg cyhoeddi'r arolygiad.

¹² Y rheolwyr achos cymwysedig yw'r rheiny sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol, cyfiawnder ieuencid neu brofiannaeth.

¹³ Darparwyd y data gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, ar sail staffio a llwyth gwaith ar adeg cyhoeddi'r arolygiad.

A yw sgiliau staff Timau Troseddau Ieuentid yn cefnogi darparu gwasanaeth ymatebol, o safon uchel sydd wedi'i bersonoli i bob plentyn?

Mae hwn yn grŵp medrus a phrofiadol o staff sy'n dangos ymrwymiad cryf i'r plant ac yn adeiladu perthynas waith effeithiol gyda nhw. Mae gwaith y gweithwyr achos hyn yn gyson sensitif i anghenion plant.

O'r staff a arolygwyd, roedd wyth allan o naw yn ystyried bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i wneud eu rôl yn y Tîm Troseddau Ieuentid.

Mae grŵp rheoli achosion profiadol a sefydledig i'w gael, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gymwysedig mewn gwaith cymdeithasol. Gwelsom synnwyr cryf o waith tîm cefnogol ymysg staff gweithredol.

A yw goruchwyliaeth ar waith yn cefnogi datblygiad proffesiynol a darpariaeth o safon uchel?

Mae pobl sy'n mynd i mewn i'r sefydliad am y tro cyntaf yn nodi eu bod wedi derbyn cyflwyniad priodol a bod ganddynt lwybrau clir i ddatblygiad proffesiynol.

Yn yr achosion a arolygwyd, roeddem yn ystyried bod cyfraniad y rheolwr i reolaeth achosion yn annigonol mewn dwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd. Gwelsom nad oedd materion allweddol yn ymwneud â risg i ddiogelwch a lles y plentyn neu'r risg y gallai ei achosi i eraill wedi eu canfod ac na weithiwyd â hwy. Cefnogir y staff gan reolwyr yn ystod yr oruchwyliaeth heb gael eu herio'n ornodol ac mae'n amlwg bod hwn yn faes sydd angen ei ddatblygu.

Dim ond pedwar allan o naw o staff a ddangosodd bod eu gwerthusiad blynyddol diweddaraf yn werthfawr.

A yw'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygiad yn gynhwysfawr ac ymatebol?

O'r staff a arolygwyd, roedd wyth allan o naw yn ystyried bod eu hanghenion hyfforddiant a datblygiad wedi eu cyflawni gan fwyaf.

Mae gan staff y Tîm Troseddau Ieuentid a staff partneriaethau bwrpas cyffredin, wedi ei feithrin yn gryfach drwy fynediad at hyfforddiant na chyfeiriad strategol.

Mae'r staff yn dweud bod hyfforddiant yn hygyrch ac yn ddefnyddiol ar gyfer eu datblygiad. Mae trefniadau yn eu lle i'w gwneud yn haws iddynt fynychu. Mae amrywiaeth gynhwysfawr o becynnau hyfforddi ar gael i'r staff i gyd sy'n gweithio yn y bartneriaeth.

A yw rheolwyr yn talu digon o sylw i ymgysylltiad staff?

Mae hwn yn grŵp hynod o frwdfrydig o staff sy'n dangos llawer o ymrwymiad i'r plant a'r teuluoedd y maent yn gweithio â nhw.

Dechreuodd y gwaith i wella ymgysylltiad staff yn 2020, drwy'r broses o waith archwilio ar y cyd gydag aelodau'r bwrdd. Ond, rhoddwyd y gorau i hyn yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau'r pandemig. Yn ein cyfarfodydd, roedd syniad bod bwch rhwng gwaith y bwrdd a gwaith y staff gweithredol. Mae hyn yn broblem sy'n amlwg yng ngolwg cadeirydd y bwrdd a'r rheolwr uwch fel un sydd angen sylw ar frys.

O'r staff a arolygwyd, roedd saith allan o naw yn ystyried bod gwaith rhagorol o leiaf weithiau'n cael ei gydnabod ac roedd pump allan o chwe aelod o staff gydag anghenion amrywiaeth unigol yn meddwl bod yr anghenion hyn wedi derbyn cydnabyddiaeth ac yr ymatebwyd iddynt.

Mae gan staff hygyrchedd da at wasanaethau cefnogol a ddarperir gan yr awdurdod lleol

1.3. Partneriaethau a gwasanaethau



Mae amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel yn ei lle, sy'n galluogi darpariaeth ymatebol wedi'i phersonoli i bob plentyn.

Da

Nodweddion y llwyth achosion

Canran y llwyth achosion cyfredol sydd â phroblemau iechyd meddwl	57%
Canran y llwyth achosion cyfredol sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau	52%
Canran y llwyth achosion cyfredol sydd ag anabeldd dysgu neu anhawster dysgu	17.3%

Wrth wneud beirniadaeth am bartneriaethau a gwasanaethau, rydym yn rhoi ystyriaeth i'r atebion i'r cwestiynau a ganlyn:

A oes dadansoddiad digon cynhwysfawr a diweddar o broffil plant, sy'n cael ei ddefnyddio gan y Tîm Troseddau Ieuentid i ddarparu gwasanaethau wedi eu targedu'n dda?

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y plant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuentid ar hyn o bryd. Mae data hygyrch wedi ei gynnwys ym mhroffil dogfennaeth plant y Tîm Troseddau Ieuentid. Mae'r staff yn pennu cymhlethdod anghenion y plant mewn perthynas â'u profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, maint eu hanghenion addysgol ychwanegol, pa mor agored ydyn nhw i gamfanteisio a'u profiad o'r system ofal.

Gwelsom ddadansoddiad da o fathau o droseddau a defnydd lleol o ddatrysiadau cyfiawnder troseddol gan y llys a thrwy broesau arallgyfeirio. Cafwyd newid amlwg mewn adnoddau tuag at ymyrraeth fwy ataliol, wedi ei seilio ar lefel dda o ddealltwriaeth y dylai anghenion plant dderbyn sylw yn llawer cynharach yn eu bywydau. Mae hyn wedi ei fynegi yng nghynllun a strategaeth atal Tîm Troseddau Ieuentid Bro Morgannwg, ac o'i weithredu sefydlwyd tîm atal ar wahân o fewn y Tîm Troseddau Ieuentid. Mae cyfran sylweddol o gapasiti gwaith y Tîm Troseddau Ieuentid wedi ei ddyrannu i'r maes hwn o waith.

Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn dangos tuedd o welliant mewn nodau sefydliadol pwysig fel gostwng y nifer o bobl sy'n dod i mewn i'r system am y tro cyntaf a chyfyngu ar ddefnyddio'r ddalffa i blant.

Mae angen i safbwynt y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr gael eu casglu'n fwy systematig a'u defnyddio i hysbysu datblygiad y gwasanaeth. Ymhob agwedd o'r achosion a arolygwyd gwelsom fod y plentyn a'u rhiant neu ofalwr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn y gwaith gyda'r rheolwr achos.

A yw'r bartneriaeth Tîm Troseddau Ieuentid yn darparu'r maint, yr ystod a'r ansawdd gwasanaethau ac ymyriadau sy'n ofynnol i ateb anghenion y plant i gyd?

Mae Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg yn darparu cymorth mewnol ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, drwy swyddog cynhwysiant sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r gwasanaethau addysg. Mae protocol i gefnogi'r gwaith hwn, ac ymhlith y nodau a bennwyd mae cymryd rhan mewn 25 awr o addysg ysgol statudol, neu 16 awr o hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16

Mae Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull wedi'i hysbysu gan drawma o ymdrin ag addysg, sy'n alinio ag egwyddorion craidd gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid. Gwelsom fod y rhain yn aml wedi eu disgrifio gan y cyfranogwyr yn y bartneriaeth.

Mae mynediad uniongyrchol i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) drwy'r nyrs arbenigol sydd wedi ei secondio. Mae hefyd fynediad uniongyrchol i'r nyrsys camddefnyddio sylweddau sydd ar secondiad.

Mae cynnig cryf o waith adferol. Mae hyn wedi ei seilio ar waith ymarferol y gellir ei ategu drwy gyflawni'r cymhwyster CSCS (Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu) lle mae hyn yn briodol i anghenion y plentyn ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae gan y staff ddull gweithredol o weithio gyda dioddefwyr, ac mae safbwynt y dioddefwr wedi ei gynrychioli drwy gydol gwaith y plentyn gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid. Cynigir cynadledda cyfiawnder adferol yn rhan integrol o ddatrysiadau y tu allan i'r llys ac mae ar gael ar gyfer yr holl ymyriadau eraill, yn dibynnu ar ddymuniadau'r dioddefwr.

Mae trafodaethau gyda staff yn dangos bod y dull a gymerir ar draws y bartneriaeth yn rhoi'r plentyn yn gyntaf, mae wedi ei hysbysu gan drawma ac mae wedi ei seilio ar ddealltwriaeth o amlygrwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'n mabwysiadu dull wedi ei seilio ar gryfderau tuag at waith gyda'r plant a'u teuluoedd.

Mae gan y plant fynediad at wasanaethau llety o safon uchel drwy'r darparwydd trydydd sector, Llamau. Mae hwn yn sefydliad trydydd sector hirsefydlog sy'n cael parch mawr sy'n gweithredu drwy dde Cymru gyfan. Mae pob cyfranogwr sy'n gweithio mewn gwaith partneriaeth gyda'r plant yn ceisio darparu gwasanaethau wedi'u personoli, a gwelsom yn yr achosion a arolygwyd bod materion amrywiaeth bron bob amser wedi eu trin ac yn rhan o ddarpariaeth yr ymyriadau.

A yw'r trefniadau gyda phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill wedi eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel?

Mae mynediad da ac amserol at lawer o wasanaethau arbenigol. Mae'r partneriaid yn ystyried bod yr adeiladu perthynas a wneir gan reolwyr achos yn hanfodol i hyrwyddo diogelwch plant mewn achosion unigol.

Mae arweiniad ymarfer estynedig ar 'Weithio gyda risg a phryder yn y gwasanaeth troseddau ieuencid'. Mae hwn yn amlinellu arferion a gweithdrefnau mewn perthynas â materion o risg niwed i eraill a risg i ddiogelwch plant. Mae hyn wedi ei drosi'n drefniadau gweithio clir i ganfod a rheoli camfanteisio troseddol ar blant a chamfanteisio rhywiol ar blant. Mae trefniadau wedi'u sefydlu'n dda i ddefnyddio fforymau cynllunio achosion, fforymau risg amlasiantaeth (MARF) a chysylltiadau clir at Drefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaeth (MAPPA). Mae gan staff y Tîm Troseddau Ieuencid ymwybyddiaeth dda o'r prosesau perthnasol, yn cynnwys y Mekanwaith Cyfeirio Cenedlaethol.

Gwelsom fod gan staff y Tîm Troseddau Ieuencid ac asiantaethau partner werthfawrogiad da o'r risg o niwed i eraill, ac roedd hyn wedi ei weithredu i raddau

mawr yn yr achosion a welsom. Mae'r gwasanaethau i gyd yn cymryd agwedd bersonol tuag at y gwaith, sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigryw'r plentyn.

Yn ein harolwg, mynegodd y llysoedd lefelau uchel o foddhad gyda gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid.

Nid oedd digon o blant yn gallu cael gafael ar therapi iaith, lleferydd a chyfathrebu. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i blant yn rhan o'r ddarpariaeth brif ffrwd ond mae amlygrwydd y pryder hwn, a chyflyrau niwroamrywiol perthnasol, yn golygu bod angen gwneud rhagor i sicrhau mynediad amserol i'r gwasanaethau hyn.

Nid oedd cyfranogaeth plant a'u rhieni neu ofalwyr mewn datblygu gwasanaethau wedi ei ddatblygu'n ddigonol yn Nhîm Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg.

1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau



Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull ymatebol, o safon uchel sydd wedi'i bersonoli i bob plentyn.

Da

Wrth feirniadu gwybodaeth a chyfleusterau, rydym yn rhoi ystyraeth i'r atebion i'r pedwar cwestiwn a ganlyn:

A yw'r polisiau a'r arweiniad sydd yn eu lle'n galluogi i staff ddarparu gwasanaeth o safon uchel, gan ateb anghenion y plant i gyd?

Roedd ein cyfarfod gyda'r staff oedd yn gyfrifol am adsefydliad ar ôl bod yn y ddalfa wedi tawelu ein meddyliau bod popeth a allai fod yn ei le yn wir yn ei le. Dylid nodi nad yw unrhyw blentyn o Fro Morgannwg wedi derbyn dedfryd yn y ddalfa ers mwy na dwy flynedd. Tawelwyd ein meddyliau y byddai meysydd sy'n hanfodol bwysig i adsefydlaid llwyddiannus – llety, addysg, iechyd ac iechyd meddwl – yn derbyn sylw'n gyflym.

Mae dogfennau allweddol, fel datganiad gweledigaeth y bwrdd, y polisi adsefydlu a'r polisi anghymesuredd a chynllun gweithredu'n dal i gael eu datblygu. Mae angen i'r bwrdd sicrhau bod ystyriaethau am amrywiaeth yn cael eu cynnwys bob amser.

Mae'r staff yn glir iawn ynglŷn â sut i gael gafael ar y gwasanaethau cywir gan bartneriaid i'r plant, ac mae'r dystiolaeth o achosion ar ôl y llys yn awgrymu bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu i blant.

Nid yw'r cyfathrebu rhwng y bwrdd a'r staff gweithredol wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Gallai adolygiad systematig o bolisiau ddarparu ysgogiad defnyddiol ar gyfer mwy o ymgysylltiad gan y staff.

A yw amgylchedd(au) darparu'r Tîm Troseddau Ieuencid yn ateb anghenion y plant i gyd ac yn galluogi i staff ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?

Maer brif ganolfan ar gyfer gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid mewn safle swyddfa mewn lleoliad addas yn nhref Y Bari. Mae'r staff yn ymweld â phlant gartref lle bo raid ac yn defnyddio canolfannau cysylltu lleol pan fydd hyn yn briodol.

Mae'r safle'n addas ar gyfer gwaith wedi'i bersonoli gyda phlant. Mae'r adeilad yn hygyrch, mae ganddo gyfleusterau sy'n ystyriol o blant ar gyfer y gwaith ac mae'n cynnwys man ar wahân lle gall gwaith cyfrinachol ddigwydd gydag ymarferwyr meddygol. Mae hefyd ardd fawr, sy'n cynnwys rhandir y gall y plant weithio arno, a chegin i bobl ifanc, ystafell addysg ac ystafell gelf er mwyn hyrwyddo gwaith wedi ei seilio ar berthnasoedd a gwaith sydd â ffocws ar y plentyn.

A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi i staff ddarparu gwasanaeth o safon uchel, gan ateb anghenion y plant i gyd?

Mae cymorth TGCh addas ar gael i'r staff i gyd, yn cynnwys gliniaduron a ffonau symudol. Y system a ddefnyddir gan y Tîm Troseddau Ieuencid yw Child View, ac

mae hwn yn lwyfan addas i rannu gwybodaeth rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau eraill.

Mae'r system rheoli data'n darparu gwybodaeth o safon uchel at ddibenion adrodd i'r bwrdd am fesurau perfformiad allweddol. Mae cyflenwad da o wybodaeth gan asiantaethau partner allweddol, yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei mireinio i wrth i'r awdurdod lleol ddatblygu'r gallu i ddefnyddio gwell rhaglenni dadansoddi data.

A yw dadansoddiad, tystiolaeth a dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant?

Mae cysylltiad clir rhwng yr arferion a welsom yn Nhîm Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg, a'r sail dystiolaeth gynyddol i gefnogi dulliau wedi eu hysbysu gan drawma i ddeall a gweithio gyda phlant sy'n troseddu neu sydd dan risg o droseddu. Mae systemau sicrhau ansawdd clir yn eu lle, gydag archwiliadau achos rheolaidd a staff dynodedig i wneud y gwaith hwn. Mae angen datblygu'r rhain ymhellach i gynnwys hyrwyddo dull o weithio sy'n blentyn-ganolog ac wedi ei hysbysu gan drawma.

Mae gwelliannau i'r gwasanaeth, fel datblygiad ymyriaethau ataliol, wedi eu seilio ar dystiolaeth gynyddol bod ymyrraeth gynnar yn gallu darparu llwybr llwyddiannus i ddargyfeirio plant o ymyrraeth cyfiawnder troseddol. Mae datblygiadau yn y gwasanaeth wedi eu hyrwyddo'n bennaf drwy hyfforddiant, ac mae ein harolygiad yn awgrymu bod hyn wedi bod yn ddull effeithiol o hyrwyddo arferion gweithio effeithiol.

Nid yw safbwyntiau plant a'u teuluoedd neu ofalwyr yn cael eu casglu'n systematig ac mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cydnabod bod hwn yn faes i'w ddatblygu.

Amrywiaeth

Trwy gydol ein safonau, rydym yn disgwyl dull ymatebol wedi ei bersonoli ar gyfer pob plentyn, sy'n cynnwys ystyried eu hamrywiaeth a'u nodweddion gwarchoddedig. Gallai'r ffactorau hyn ddylanwadu ar ein beirniadaethau mewn safonau penodol. Yma, rydym yn cyflwyno crynodeb cyffredinol o'r agwedd tuag at amrywiaeth a welsom yn y Tîm Troseddau Ieuentid hwn.

Ar lefel weithrediadol, gwelsom fod gan ymarferwyr ddiddordeb brwd mewn pennu, deall ac addasu gwaith gyda'r plentyn, gydag ystyriaeth addas i amrywiaeth a nodweddion gwarchoddedig y plentyn. Yn ein sampl o arolygiadau achos, roedd amrywiaeth wedi ei drin yn briodol ymron pob sefyllfa.

Ar lefel sefydliadol, mae angen i'r bwrdd ardystio'r polisi ar weithio gyda phlant o grwpiau sydd wedi eu cynrychioli'n anghyfartal yn llwyth achosion y Tîm Troseddau Ieuentid. Bydd hyn yn darparu cyfeiriad strategol clir i staff a phartneriaid fel ei gilydd.

Mae'r gwaith sy'n datblygu'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol sy'n cymharu Bro Morgannwg gyda gweddill Cymru mewn perthynas â ffactorau demograffig allweddol. Mae data cynhwysfawr am broffil cohort plant y Tîm Troseddau Ieuentid yn y ddogfen 'Proffil o Gohort Bro Morgannwg', sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchoddedig ac ystod o ffactorau pwysig ym mywydau plant. Mae hyn yn cynnwys maint wedi'i asesu o gamfanteisio rhywiol ar blant, plant yr adroddwyd eu bod ar goll, plant gyda goruchwyliaeth wael gan rieni, plant gydag anabledd iaith, lleferydd neu gyfathrebu a phrofiad plant o'r system gofal. Mae'r staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant mewn gweithio gyda phlant sydd ag anghenion iaith a lleferydd a gwelsom dystiolaeth mewn arolygiadau achos bod y gwaith yn cael ei addasu yn unol ag anghenion unigol plant. Mae darpariaeth addysgol yr uned cyfeirio disgyblion wedi ei addasu'n arbennig i anghenion plant sy'n gweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuentid oherwydd mae wedi mabwysiadu dull sydd wedi'i hysbysu gan drawma i ddarparu gwasnaethau.

Fel y dywedwyd, mae nodweddion gwarchoddedig ymysg y plant yn cael eu monitro. Lle gwelir achos i bryderu, datblygir cynlluniau gweithredu. Yng nghyd-destun y cynnydd yn y nifer o ferched ar y llwyth achos, mae gan y Tîm Troseddau Ieuentid gynllun gweithredu wedi'i ddatblygu'n dda i ddarparu gwasanaethau i ferched, ar sail dealltwriaeth glir a dadansoddiad o'r problemau sy'n eu wynebu nhw.

2. Datrysiaidau llys

Cawsom olwg manwl ar dair dedfryd gymunedol. Hefyd gwaethom dri chyfweliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Aethom ati i archwilio ansawdd yr asesiad; y cynllunio; gweithrediad a darpariaeth gwasanaethau; a'r adolygu. Cafodd pob un o'r elfennau hyn eu harolygu mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i ymdrin â pheidiad, cadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Dyma ein prif ganfyddiadau am ddatrysiaidau llys:

Cryfderau

- Mae'r gwaith asesu wedi ei seilio ar ddealltwriaeth dda o amgylchiadau'r plentyn unigol.
- Lle bo'n briodol, roedd rheolwyr achos yn ystyried safbwyntiau asiantaethau eraill wrth ffurfio asesiad o'r plentyn.
- Mae'r gwaith cynllunio wedi ei seilio ar gryfderau. Mae cyfranogaeth dda gan asiantaethau eraill yn y gweithgaredd hwn ac mae tystiolaeth bod cynlluniau amlasiantaeth yn alinio'n dda.
- Roedd y gwaith a ddarparwyd i'r plentyn wedi ei seilio'n dda mewn tystiolaeth; roedd y dull yn un plentyn-ganolog, wedi ei hysbysu gan drawma ac wedi ei seilio ar egwyddorion adferol.
- Roedd gwasanaethau allweddol fel cefnogaeth iechyd meddwl ac ymyraethau ar gyfer camddefnydd sylweddau ar gael yn gyflym.
- Cafodd ein disgwyliadau y byddai anghenion amrywiol y plentyn yn cael eu deall, ac y byddai'r gwasanaeth yn gweithredu ar y rhain, eu cyflawni ymron pob sefyllfa.
- Roedd lleisiau'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr wedi eu hymgorffori ymhob agwedd o'r rheoli achosion.

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd y rheolwyr achosion bob amser yn nodi risg uwch posibl o niwed i eraill.
- Nid oedd goruchwyliaeth y rheolwyr o waith y rheolwyr achos bob amser yn helpu i adnabod risg o niwed i eraill mewn asesu, cynllunio neu adolygu yn yr achosion a arolygwyd.

Bydd y gwaith gyda phlant a ddedfrydwyd gan y llysoedd yn fwy effeithiol os yw wedi ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ymhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedwar safon.

2.1. Asesiad



Mae'r asesiad wedi ei hysbysu'n dda, mae'n ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Da

Mae ein sgôr¹⁴ ar gyfer asesiad wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

	% 'Ydy'
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi peidiad y plentyn?	100%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	100%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi peidiad y plentyn?

Yn yr achosion a arolygwyd gennym, roedd y rheolwyr achos yn ystyried sut i gefnogi peidiad y plentyn yn dda bob amser. Gwelsom fod dealltwriaeth o hanes personol y plant a bod y rheolwr achos wedi defnyddio amrediad priodol o ffynonellau gwybodaeth i ddadansoddi sut roedd ffactorau perthnasol yn dylanwadu ar ymddygiadau'r plentyn.

Ochr yn ochr ag amrediad priodol o ffynonellau gwybodaeth, roedd lleisiau'r plentyn a'u rhiant neu ofalwr yn amlwg wedi eu hymgorffori yn yr asesiad o'r holl achosion.

Mewn un achos, dywedodd yr arolygydd bod:

Yr asesiad yn dangos y ffactorau'n glir yn erbyn peidiad ac yn cysylltu'r rhain ag ymddygiad troseddol y plentyn ac ymddygiadau eraill sy'n achosi pryder. Tynnir sylw at gryfderau hefyd, er eu bod yn finimol. Mae'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth gan wasanaethau eraill y mae'r plentyn yn hysbys iddynt ar hyn o bryd/yn hanesyddol, yn cynnwys y gwasanaethau plant, y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ysgol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r lleoliad addysg. Mae lleisiau'r plentyn a'i rieni (tad a llys-fam – sydd hefyd yn ddiodefnydd) yn amlwg ar draws yr asesiad.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Roedd pryderon am ddiogelwch a lles wedi derbyn sylw priodol yn y gwaith asesu a arolygwyd gennym. Cafodd materion o bryder eu hadnabod a'u dadansoddi'n glir, ac roedd dealltwriaeth y rheolwr achos wedi ei seilio ar yr holl ffynonellau o wybodaeth oedd ar gael.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

¹⁴ Mae'r sgôr ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf i bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi ei roi mewn band sgorio a'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 am esboniad manylach.

Mewn dau o'r tri achos a arolygwyd gennym, roedd y dadansoddiad o debygolrwydd y plentyn o achosi niwed i bobl eraill wedi ei wneud yn ddigon da. Yn yr achosion hyn, rhoddwyd ystyriaeth i gyd-destun y troseddu, y dioddefwyr posibl a'r tebygolrwydd y byddai'r ymddygiad niweidiol yn digwydd eto.

Mewn un o'r achosion, nid oedd y rheolwr achos wedi diweddarau'r gwaith asesu cyfredol yng nghyd-destun cynnydd yn nifrifoldeb y troseddu a dylai hyn fod wedi digwydd. Byddem yn disgwyl i'r hepgoriad hwn gael ei weld gan y rheolwr oedd yn goruchwyllo'r gwaith ac nid oedd hyn wedi digwydd chwaith.

2.2. Cynllunio



Mae'r cynllunio wedi ei hysbysu'n dda, mae'n gyfannol ac wedi ei bersonoli, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rheini neu ofalwyr yn weithredol.

Da

Mae ein sgôr¹⁵ ar gyfer cynllunio wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

	% 'Ydy'
Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi peidiad y plentyn?	100%
Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	100%
Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi peidiad y plentyn?

Ymhob achos, gwelsom amrediad da o waith cynllunio i'r unigolyn, gyda ffocws da ar ddi-ddordebau a galluoedd y plentyn. Roedd lefel gadarnhaol o gynllunio i gefnogi cryfderau'r plentyn a hyrwyddo ffactorau gwarchoddedig.

Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Gwelsom waith cynllunio da oedd wedi ei anelu at gadw'r plentyn yn ddiogel bob amser. Lle bo raid, cafodd y cynllun ei lunio a'i adolygu gan gorff adolygu amlasiantaeth. Un o nodweddion cryf y gwaith yn Nhîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg oedd alinio cynlluniau a ddatblygwyd gan reolwr achos y Tîm Troseddau Ieuencid gyda gweithgareddau eraill yr oedd y plentyn yn cymryd rhan ynddynt, megis cynlluniau diogelu plant

A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Mewn dau o'r tri achos a arolygwyd, roedd y gwaith cynllunio'n ystyried ymddygiadau a allai fod yn niweidiol a ddangoswyd gan y plentyn drwy amrediad o ymyriadau, yn cynnwys ymwybyddiaeth o droseddau cylllell, gwaith adferol, dylanwad cymheiriaid, adeiladu gwydnwch, gwaith empathi â'r dioddefwr a meddwl ôl-ddilydol.

¹⁵ Mae'r sgôr ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf i bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi ei roi mewn band sgorio a'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 am esboniad manylach.

Mewn un achos, roeddem yn bryderus nad oedd y rheolwr achos wedi cynllunio i ymdrin â'r ffaith bod y plentyn wedi dangos ymddygiadau niweidiol rhywiol oherwydd teimlwyd nad oeddent yn gysylltiedig â'r troseddau oedd wedi arwain at gyfranogaeth â'r Tîm Troseddau Ieuencid. Cafodd y materion hyn eu dogfennu'n dda, ac eto nid oeddent yn rhan o'r gwaith a gynlluniwyd gyda'r plentyn. Ni chanfuwyd ac ni ddatryswyd yr hepgoriad hwn drwy'r broses o oruchwylio gan reolwyr ac mae gwella'r oruchwyliaeth gan reolwyr yn faes datblygu i'r Tîm Troseddau Ieuencid.

2.3. Gweithrediad a darpariaeth



Darperir gwasanaethau cydlynus, wedi'u personoli, gyda ffocws da ac o safon uchel, sy'n ymgysylltu a helpu'r plentyn.

Rhagorol

Mae ein sgôr¹⁶ am weithrediad a darpariaeth wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

	% 'Ydy'
Ydy gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi peidiad y plentyn yn effeithiol?	100%
Ydy gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	100%
Ydy gweithrediad a darpariaeth gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	100%

Ydy gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi peidiad y plentyn yn effeithiol?

Ymhob achos a arolygwyd, roedd y rheolwr achos wedi darparu ymyriadau cefnogol i'r plentyn. Pan oedd gwaith wedi ei gynllunio, cafodd ei ddarparu. Er enghraifft, cafodd plant eu helpu i gael y cerdyn Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu i wella eu rhagolygon gyrfaoel neu cawsent eu cefnogi i fynd i'r ysgol neu goleg.

Roedd agwedd y rheolwyr achos tuag at y gwaith wedi ei hysbysu gan drawma, gyda phwyslais ar adeiladu cysylltiadau cynhyrchiol gyda'r plant. Roedd y gwaith wedi ei deilwra i anghenion a galluoedd dysgu'r plentyn.

Gwelsom lefelau da o ymgysylltiad gydag aelodau teulu'r plentyn, lle'r oedd hyn yn briodol.

A yw gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?

Roedd defnydd da o amrywiaeth o ymyriadau. Gwelsom fod y mynediad at wasanaethau yn gyflym a dibynadwy, yn arbennig lle'r oedd anghenion ieuchyd meddwl neu bryderon am gamddefnyddio sylweddau.

¹⁶ Mae'r sgôr ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf i bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi ei roi mewn band sgorio a'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 am esboniad manylach.

Lle'r oedd problemau arwyddocaol am ddiogelwch a lles y plentyn, gallai'r rheolwr achos chwarae rhan lawn mewn trefniadau amlasiantaeth. Roedd trefniadau rhannu gwybodaeth cryf ac effeithiol yn eu lle gyda'r heddlu a'r rhwydwaith proffesiynol o amgylch y plentyn

A yw gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

Cafodd gwasanaethau eu darparu i'r plant mewn ffordd oedd yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol. Roedd hwn yn ddull oedd wedi ei seilio ar gryfderau i raddau mawr – yn ceisio adeiladu ar adnoddau'r plentyn a chefnogi'r plentyn mewn gweithgaredd cadarnhaol oedd wedi ei anelu at ostwng y tebygolrwydd o ragor o ymddygiad peryglus.

Gwelsom ffocws cryf ar ddatblygu meddwl ôl-ddilydol drwy ymyriadau fel ymwybyddiaeth o droseddau cylllell. Roedd hyn, wedi ei gyfuno ag arferion adferol yn anelu at hyrwyddo dealltwriaeth o safbwynt dioddefwyr cyfredol a photensial y dyfodol, yn rhoi tystiolaeth glir bod rheolwyr achos yn hyrwyddo dealltwriaeth plant ohonynt eu hunain ac o'u heffaith ar bobl eraill.

2.4. Adolygu



Mae'r gwaith o adolygu cynnydd wedi ei hysbysu'n dda, yn ddadansoddol, ac wedi ei bersonoli, gan gynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Da

Mae ein sgorio¹⁷ ar gyfer adolygu wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

	% 'Ydy'
A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi peidiad y plentyn?	67%
A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	100%
A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi peidiad y plentyn?

Mewn dau allan o'r tri achos a arolygwyd, roedd yr adolygiadau'n cynnal ffocws priodol ar beidiad y plentyn. Gwnaed adolygiadau ar bwyntiau o newid arwyddocaol ym mywyd y plentyn ac addaswyd cynlluniau i gefnogi'r plentyn gyda newid amgylchiadau.

Mewn un achos, lle'r oedd y rheolwr achos heb sylwi ar ffactor peidiad allweddol, ni chanfuwyd hwn drwy'r broses o oruchwyliaeth rheoli nag adolygiad arall.

A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

¹⁷ Mae'r sgôr ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf i bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi ei roi mewn band sgorio a'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 am esboniad manylach.

Gwelsom fod y ffocws ar gadw'r plentyn yn ddiogel wedi ei gynnal ymhob un o'r achosion a arolygwyd. Roedd yr adolygu wedi adnabod ac ymateb i newidiadau mewn ffactorau oedd yn ymwneud â diogelwch a lles, lle bo'r gofyn. Roedd yr adolygu hefyd yn sicrhau bod yr addasiadau angenrheidiol wedi eu gweithredu pan fo'r gofyn. Un peth nodedig oedd yr ymgysylltiad â'r swyddog camfanteisio troseddol lleol, lle ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol, ac uwchgyfeiriad llwyddiannus y materion diogelu a ganfuwyd drwy'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

A yw'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Mewn dau o'r achosion a arolygwyd, gwelsom fod yr adolygiad wedi ystyried yr holl ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig â risg o niwed i eraill a chafodd ei hysbysu gan gyfraniad asiantaethau perthnasol eraill. Roedd yr adolygu'n pennu ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau oedd yn gysylltiedig â risg o niwed pan fo'r gofyn.

Mewn un achos, nid oedd y rheolwr achos wedi diweddarau'r asesiad o'r achos yn unol â throsedd dreisgar fwy difrifol. Nid oedd hyn wedi ei bennu drwy'r broses arolygu ac mae'n faes sydd angen ei ddatblygu.

3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

Buom yn arolygu tair achos wedi eu rheoli gan y Tîm Troseddau Ieuencid oedd wedi derbyn datrysiad y tu allan i'r llys. Yr achosion hyn oedd un rhybudd ieuencid a dau ddatrysiad cymunedol. Buom yn cyfweld y rheolwyr achos yn y tri achos.

Aethom ati i archwilio ansawdd yr asesiad; cynllunio; a gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau. Cafodd pob un o'r elfennau hyn eu harolygu mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i ymdrin â pheidiad, cadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar gyfer pob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol ar gyfer pob agwedd o oruchwyliaeth er mwyn cael eu sgorio'n foddhaol.

Buom hefyd yn archwilio ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth oedd yn eu lle ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Gwneir gwaith asesu gan ddefnyddio'r rhaglen AssetPlus ar gyfer pob achos a gyfeirir at Dîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg. Yn ôl yr asesiad, roedd y peidiad yn foddhaol ymhob achos. Mewn dau o'r achosion, roedd y risg o niwed i eraill wedi ei ystyried yn briodol. Ond, nid oedd yr asesiadau wedi ymdrin â diogelwch y plentyn mewn dau o'r tri achos a arolygwyd.

Roedd y broses o gynllunio'r gwaith yn canolbwyntio'n ddigonol ar beidiad o ran cadw pobl eraill yn ddiogel ymhob un o'r achosion a arolygwyd. Mewn un achos, nid oedd y risg i ddiogelwch a lles y plentyn wedi derbyn ystyriaeth ddigonol.

Ymhob achos, roedd gweithrediad a darpariaeth y gwaith gyda'r plentyn o safon dda mewn perthynas â pheidiad a'r risg o niwed i eriall. Mewn un achos, nid oedd y risg i ddiogelwch a lles y plentyn wedi derbyn ystyriaeth ddigonol.

Mae'r polisi a'r arfer datrysiad y tu allan i'r llys wedi eu dogfennu'n dda, gydag eglurder am gyfraniadau'r partneriaid perthnasol. Roedd hyn wedi ei adlewyrchu mewn trafodaeth â'r aelodau staff oedd yn cymryd rhan. Mae'r polisi'n atebol i adolygiad a diweddarau priodol.

Dyma ein prif ganfyddiadau am ddatrysiadau y tu allan i'r llys:

Cryfderau

- Defnyddir rhaglen asesu priodol (AssetPlus) ymhob achos a gyfeirir i'r Tîm Troseddau Ieuencid cyn iddo fynd i banel gwneud penderfyniadau.
- Mae'r panel yn gwneud penderfyniadau ar y cyd, ac mae trefn uwchgyfeirio priodol os nad yw'n dod i gonsensws.
- Mae polisi y tu allan i'r llys y Tîm Troseddau Ieuencid wedi gyrru dull arallgyfeirio, a chafwyd dirywiad nodedig yn y nifer o bobl sy'n dod i mewn i'r system am y tro cyntaf.
- Gwnaed y mwyafrif o agweddau'r gwaith cynllunio i safon dda.
- Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd i'r plant yn hyblyg ac wedi'u personoli.
- O fewn y bartneriaeth mae ethos ar y cyd o ddulliau plentyn-ganolog wedi eu hysbysu gan drawma o ddeall a gweithio gyda'r plant.

Meysydd i'w gwella

- Nid yw'r polisi y tu allan i'r llys yn ymdrin â sut i ganfod, deall a rheoli amrywiaeth y plant.
- Nid yw'r gwaith asesu'n rhoi digon o sylw i faterion sy'n ymwneud â diogelwch a lles y plentyn a'r risg o niwed i eraill y gallai'r plentyn ei gyflwyno.
- Nid yw goruchwyliaeth rheolwyr dros achosion yn ddigon trwyadl o ran hyrwyddo chwilfrydedd proffesiynol.
- Nid oes mecanwaith ar gyfer casglu barn plant a'u rheini neu ofalwyr am eu profiad o'r cynllun.

Bydd y gwaith gyda phlant sy'n derbyn datrysiadau y tu allan i'r llys yn fwy effeithiol os yw wedi ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ymhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedwar safon.

3.1. Asesiad



Mae'r asesiad wedi ei hysbysu'n dda, mae'n ddadansoddol ac wedi'i personoli, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Annigonol

Mae ein sgôr¹⁸ ar gyfer asesiad wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

	% 'Ydy'
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi peidiad y plentyn?	100%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	33%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	67%

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi peidiad y plentyn?

Roedd yr holl achosion a arolygwyd yn cynnwys dadansoddiad digonol o sut i gefnogi peidiad y plentyn ac roedd hyn wedi ei seilio ar ddealltwriaeth dda o amrywiaeth ac amgylchiadau personol y plentyn.

Ymhob achos roedd anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr wedi eu hystyried. Roedd tystiolaeth dda bod barn y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr wedi eu hystyried yn rhan o'r broses asesu.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Mewn un achos, roedd amgylchiadau personol cymhleth y plentyn wedi eu pennu'n glir yn yr asesiad ac roedd yr effaith ar ddiogelwch a lles yn cael ei ystyried yn ofalus.

Yn y ddau achos pellach, er bod y rheolwyr achos wedi canfod materion oedd yn gofyn sylw, fel camddefnyddio alcohol neu sylweddau, ni wnaethent unrhyw gysylltiad rhwng y meysydd hyn o bryder a diogelwch a lles y plentyn.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Mewn dau o'r achosion, roedd yr asesiad yn dadansoddi ymddygiad y plentyn yn briodol yng nghyd-destun eu bywydau ac yn dadansoddi pwy oedd mewn perygl o niwed a beth oedd effaith yr ymddygiad.

Yn yr achos arall, nid oedd unrhyw ddadansoddiad o'r ymddygiad niweidiol a ddangoswyd gan y plentyn.

3.2. Cynllunio



Mae'r cynllunio wedi ei hysbysu'n dda, mae'n ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, ac mae'n cynnwys y plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn weithredol.

Da

¹⁸Mae'r sgôr ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf i bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi ei roi mewn band sgorio a'i ddangos mewn print trwm yn y tabl Gwelwch Atodiad 2 am esboniad manylach.

Mae ein sgôr¹⁹ ar gyfer cynllunio wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

	% 'Ydy'
Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi peidiad y plentyn?	100%
Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	67%
Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	100%

Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi peidiad y plentyn?

Gyda'r plant i gyd roedd cynllun clir i ymdrin ag anghenion peidiad. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys amrediad o sefydliadau partner yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau lle'r oedd hyn yn cyflenwi gwaith unigol y rheolwr achos.

Gwelsom fod sylw da i anghenion amrywiaeth y plant a'u bod nhw a'u rhieni neu ofalwyr wedi eu hymgysylltu yn y broses gynllunio. Gwelsom hefyd bod sylw da'n cael ei roi i'r gwaith a fwriadwyd mewn perthynas ag arddull dysgu'r plentyn, eu hanghenion dysgu a'u cyflwr emosiynol.

A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Mewn dau o'r achosion, roedd y cynllunio'n cynnwys ymyriadau oedd yn dangos cyfradd uchel o sensitifrwydd i anghenion y plentyn ac yn alinio'n dda gyda gwaith asiantaethau eraill, yn arbennig gofal cymdeithasol plant. Roedd y cynllunio wrth gefn yn ddigonol yn yr achosion hyn hefyd, gan ddarparu trefniadau diogelwch os byddai'r risgiau i'r plentyn yn cynyddu.

Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Roedd ymyraethau a threfniadau gwaith oedd wedi eu cynllunio'n canolbwyntio'n dda ar gadw pobl eraill yn ddiogel ymhob un o'r tri achos a arolygwyd. Mae'r ymddygiad yr ystyrir ei fod yn cyflwyno risg o niwed i bobl eraill yn derbyn sylw drwy drefnu gweithgareddau wedi'u personoli

Gwnaed y cynllunio wrth gefn yn ddigon da gyda phob plentyn, naill ai ar lefel unigol neu yn rhan o gynllun diogelwch amlasiantaeth.

3.3. Gweithrediad a darpariaeth



Darperir gwasanaethau cydlynus, wedi'u personoli, gyda ffocws da ac o safon uchel, sy'n ymgysylltu a helpu'r plentyn.

Da

Mae ein sgôr²⁰ am weithrediad a darpariaeth wedi ei seilio ar y cwestiynau allweddol a ganlyn:

¹⁹ Mae'r sgôr ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf i bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi ei roi mewn band sgorio a'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 am esboniad manylach.

²⁰ Mae'r sgôr ar gyfer y safon wedi ei yrru gan y sgôr isaf i bob un o'r cwestiynau allweddol, sydd wedi ei roi mewn band sgorio a'i ddangos mewn print trwm yn y tabl. Gwelwch Atodiad 2 am esboniad manylach.

	% 'Ydy'
Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi peidiad y plentyn yn effeithiol?	100%
Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	67%
Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	100%

Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi peidiad y plentyn?

Ymhob agwedd, gwelwch fod y gwaith gyda phlant o ddigon o safon i gefnogi peidiad rhag troseddu pellach. Roedd anghenion y plant yn cael eu trin mewn ffordd gefnogol ac roedd tystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth yn cael ei ymestyn yng nghyd-destun anghenion y plentyn yn hytrach na chael ei ddarparu'n anhyblyg o fewn cyfyngiadau amser cyfyngedig datrysiaid y tu allan i'r llys.

Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Mewn dau o'r achosion gwelwch fod y rheolwr achos yn canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel. Yn y ddau achos roedd hyn yn cynnwys asiantaethau eraill yn cymryd rhan yn weithredol mewn cefnogi'r plentyn a'u teuluoedd.

Roedd hepgoriad amlwg mewn un achos, lle'r oedd y gwasanaethau a ddarparwyd wedi colli cyfle i helpu'r plentyn i ymdrin â mater o gamddefnyddio sylweddau oedd wedi eu cysylltu â'i ddiogelwch a'i les.

A yw darpariaeth y gwasanaeth yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Trwy waith sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, ymgysylltiad asiantaethau partner ac adeiladu perthnasoedd gweithio cadarnhaol, gallai'r rheolwyr achos ddangos bod y risgiau y gallai'r plentyn eu cyflwyno i bobl eraill wedi eu trin yn effeithiol.

3.4. Darpariaeth a pholisi datrysiad y tu allan i'r llys



Mae gwasanaeth datrysiad y tu allan i'r llys o safon uchel sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth ac mae hwn yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi peidiad cynaliadwy.

Da

Wrth basio barn am bolisi a darpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys, rydym yn ystyried yr atebion i'r cwestiynau a ganlyn:

A oes polisi yn ei le ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r llys sy'n hyrwyddo dargyfeiro priodol ac yn cefnogi peidiad cynaliadwy?

Mae'r cyd-brotocol rhwng Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg a Heddlu De Cymru wedi ei ddogfennu'n dda ac yn glir. Mae'r holl rolau perthnasol mewn gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau o fewn ac o amgylch y datrysiadau wedi eu cynnwys yn y protocol.

Mae meini prawf cymhwysedd wedi eu nodi'n ofalus mewn perthynas â phob math o ddatrysiad, a mabwysiadwyd proses uwchgyfeirio ffurfiol yn dilyn gwaith arolygiad mewnol yn 2020. Ar y pryd, pennwyd bod mecanweithiau anffurfiol wedi gweithio'n dda i gefnogi penderfynu priodol, ond bod angen i'r rhain gael eu dogfennu'n well.

Mae gan y broses drefniadau y cytunwyd arnynt i'w hatal rhag methu mewn perthynas ag achosion y gallai'r llysoedd eu rhoi ar fechniaeth i'w hystyried fel datrysiad y tu allan i'r llys.

Mae trefniadau ar gyfer diogelwch plant a diogelwch pobl eraill yn rhan o'r protocol ac, wrth eu harfer, gwelsom fod materion amrywiaeth yn cael eu dadansoddi'n ddigonol ymhob un o'r achosion a arolygwyd.

Roeddem yn pryderu nad yw'r protocol yn cynnwys safle clir mewn perthynas â mynd i'r afael ag anghenion amrywiaeth y plentyn.

A yw'r ddarpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi peidiad cynaliadwy?

Mae Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg yn defnyddio'r rhaglen asesu AssetPlus ar gyfer pob achos cyn i'r panel gwneud penderfyniadau ar y cyd gyfarfod.

Mae gwneud penderfyniadau ar y cyd yn digwydd mewn panel datrysiad y tu allan i'r llys a chefnogir hyn gan Banel Penderfynu'r Gymdogaeth, lle mae'r rhan adferol o unrhyw ddatrysiad yn cael ei gynllunio a'i adolygu.

Ceir proses uwchgyfeirio i reoli achosion lle nad yw'r panel yn gallu dod i gonsensws, ac mae'r broses wneud penderfyniadau'n gweithio i ganllawiau sydd wedi eu sefydlu'n dda o ran pwy sy'n gwneud beth a phryd, gan sicrhau amseroldeb priodol yn y mwyafrif o achosion.

Y brif egwyddor a ddefnyddir yw bod holl wasanaethau ac ymyriadau'r tîm troseddau ieuencid ar gael i blant sy'n atebol i'r datrysiadau hyn. Gwelsom hyn yn cael ei weithredu yn y sampl o achosion a arolygwyd. Ystyrir sefydlu a chefnogi ymgysylltiad yn allweddol i weithio'n effeithiol

Yn ymarferol, roeddem yn ystyried bod angen i reolwyr achos dalu mwy o sylw i ddiogelwch a lles y plentyn.

A yw'r ddarpariaeth a'r polisi datrysiad y tu allan i'r llys yn cael eu hasesu'n rheolaidd a'u diweddarau i sicrhau effeithiolrwydd a chynnal aliniad â'r sail dystiolaeth?

Mae polisi clir, ar ffurf protocol datrysiad y tu allan i'r llys. Mae'r ddogfen wedi ei diweddarau a chafodd ei hadolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2021.

Mae gwerthusiad ac adolygiad y cynllun wedi eu seilio ar ddata sydd wedi ei gyflwyno'n dda ac sy'n galluogi i'r Tîm Troseddau Ieuctid fonitro'r canlyniadau i blant yn ôl oedran, rhywedd ac ethnigrwydd Mae'r data hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fathau o droseddau a pha mor ddifrifol ydynt.

Mae tystiolaeth dda o gamau gweithredu'n cael eu datblygu a'u gweithredu drwy'r broses adolygu (er enghraifft, hyfforddiant tîm ar y broses ddatrysiad y tu allan i'r llys. Ceir proses fonitro gref o effeithiolrwydd y gwaith hwn drwy banel craffu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau.

Nid oes mecanwaith ar hyn o bryd ar gyfer casglu a dadansoddi barn plant a'u rhieni neu ofalwyr am eu profiad o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

Atodiad 1: Methodoleg

Safonau Arolygiaeth Prawf EM

Mae'r safonau a ddefnyddiwn i arolygu gwasanaethau troseddau ieuencid wedi eu seilio ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi eu gwreiddio mewn tystiolaeth, dysgu a phrofiad. Mae'r safonau hyn wedi eu llunio i yrru gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.²¹

Mae'r fethodoleg arolygu wedi ei chrynhoi isod, a'i chysylltu â thri pharth yn ein fframwaith safonau. Roeddem yn canolbwyntio ar sicrhau tystiolaeth yn erbyn y safonau, y cwestiynau allweddol a'r promptiau yn ein fframwaith arolygu.

Parth un: darpariaeth sefydliadol

Cyflwynodd y gwasanaeth troseddau ieuencid dystiolaeth o flaen llaw a darparodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant ac Oedolion gyflwyniad yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- Sut mae trefniadau darparu sefydliadol yn y maes hwn yn sicrhau bod gwaith eich Gwasanaeth Troseddau Ieuencid mor effeithiol ag y gall fod, a bod cyfleoedd bywyd plant sydd wedi troseddu'n cael eu gwella?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwella'r trefniadau hyn ymhellach?

Yn ystod prif gam y gwaith maes, gwnaethom chwe chyfweiliad gyda rheolwyr achos, gan ofyn iddyn nhw am eu profiadau o hyfforddi, datblygu, goruchwylio rheolwyr ac arweinyddiaeth. Cawsom amrywiol gyfarfodydd, a ganiataodd i ni driongli tystiolaeth a gwybodaeth. Cawsom 14 cyfarfod i gyd, oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda rheolwyr, sefydliadau partner a staff. Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd o dan y parth hwn ei beirniadu yn erbyn nodweddion ein sgorau sydd wedi eu cyhoeddi.²²

Parth dau: datrysiadau llys

Cwblhawyd ein hasesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld â rheolwyr achos. Roedd pob un o'r achosion a ddetholwyd yn achosion plant oedd wedi derbyn datrysiadau llys bump i ddeg mis yn gynharach, gan ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle bo raid, cafwyd cyfweiliadau hefyd gyda phobl eraill oedd yn cyfranogi'n sylweddol yn yr achos.

Aethom ati i archwilio tri datrysiad llys. Gosodwyd maint y sampl er mwyn sicrhau lefel hyder o 80 y cant (gyda lled gwall o bump), a gwaethom yn sicr bod y cymarebion mewn perthynas â dosbarthiad rhywedd, dedfryd neu fath o ddatrysiad, risg o niwed difrifol a risg i ddiogelwch a lles oll yn cyfateb â'r rheiny yn y boblogaeth gymwys.

Parth tri: datrysiadau y tu allan i'r llys

Cwblhawyd ein hasesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld â rheolwyr achos. Roedd yr holl achosion a ddewiswyd yn achosion plant

²¹ Mae safonau Arolygiaeth EM ar gael yma:

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/>

oedd wedi derbyn datrysiadau tu allan i'r llys dri i bum mis yn gynharach. Roedd hyn wedi ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio a gweithrediad a darparu. Lle bo raid, cafwyd cyfweiliadau gyda phobl eraill oedd yn cyrmyd rhan yn sylweddol yn yr achos hefyd.


Aethom ati i archwilio tri datrysiad y tu allan i'r llys. Roedd maint y sampl wedi ei osod ar sail y gyfran o achosion datrysiad y tu allan i'r llys yn y tîm troseddau ieuenctid

Atodiad 2: Data'r arolygiad

Yn yr arolygiad hwn, gwnaethom archwiliad manwl o sampl o dri datrysiad llys a thri datrysiad y tu allan i'r llys Ymhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn safonau mewn perthynas ag asesiad. cynllunio a gweithrediad/darpariaeth. Ar gyfer datrysiadau llys, rydym hefyd yn edrych ar adolygu. I bob safon, mae'r arolygwyr yn ateb nifer o gwestiynau allweddol am wahanol agweddau ar ansawdd, yn cynnwys a oedd digon o ddadansoddiad o'r ffactorau sy'n ymwneud â throeddu; i ba raddau roedd troseddwr ifanc yn cymryd rhan mewn asesu a chynllunio; ac a oedd digon yn cael ei wneud i asesu'r lefel o risg o niwed, ac i reoli'r risg hwnnw.

I sgorio sgôr 'Rhagorol' am yr adrannau ar ddatrysiadau llys neu ddatrysiadau y tu allan i'r llys, mae'n rhaid i 80 y cant neu fwy o'r achosion a ddadansodddwn gael eu hasesu fel rhai digonol. Os bernir bod rhwng 65 y cant a 79 y cant yn ddigonol, yna'r gyfradd yw 'Da' ac os bernir bod 50 y cant a 64 y cant yn ddigonol, yna rhoddir sgôr o 'Angen gwella'. Yn olaf, os yw llai na 50 y cant yn ddigonol, yna rydym yn rhoi'r sgôr 'Annigonol' i hyn. Nid yw achosion adsefydlu'n cael eu sgorio ar wahân; mae'r data yno am resymau dangosiadol yn unig.

Mae'r sgôr ar gyfer pob safon wedi ei halinio â'r bandio ar lefel y cwestiwn allweddol lle'r oedd y gyfran isaf o achosion wedi eu barnu'n ddigonol, oherwydd credwn fod pob cwestiwn allweddol yn rhan integrol o'r safon. Felly, os byddwn ni'n sgorio tri chwestiwn allweddol yn 'Dda' ac un yn 'Annigonol' y sgôr cyffredinol ar gyfer y safon hwnnw yw 'Annigonol'.

Y bandio isaf (y gyfran o achosion a fernir yn ddigonol ar lefel y cwestiwn allweddol)	Sgôr (safon)
Lleiafrif: <50%	Annigonol
Rhy ychydig: 50-64%	Angen gwella
Mwyafrif rhesymol: 65-79%	Da
Mwyafrif mawr: 80%+	Rhagorol 

Defnyddir rheolau sgorio i gynhyrchu sgôr cyffredinol y Tîm Troseddau Ieuencid. Mae pob un o'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa o 0–3 lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3. Mae ychwanegu'r sgorau hyn yn cynhyrchu sgôr cyfan sy'n amrywio o 0 i 36, sydd wedi ei fandio i gynhyrchu'r sgôr cyffredinol, fel a ganlyn:

- 0–6 = Annigonol
- 7–18 = Angen gwella
- 19–30 = Da
- 31–36 = Rhagorol.

Mae safonau parth un, y safon ansoddol ym mharth tri (safon 3.4) a'r safon adsefydlu (safon 4.1) yn cael eu beirniadu gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol yn bennaf.

Mae safon yr adsefydliad wedi ei sgorio ar wahân ac nid yw'n dylanwadu ar sgôr cyffredinol y Tîm Troseddau Ieuencid. Rydym yn defnyddio beirniadaeth gyfyngedig,

Ile mae unrhyw Dîm Troseddau Ieuencid sy'n derbyn sgôr 'Annigonol' am y safon adsefydlu'n methu derbyn sgôr 'Rhagorol' yn gyffredinol, sut bynnag y maen nhw'n cael eu sgorio yn erbyn y safonau craidd. Os nad oes achosion adsefydlu perhnasol, nid ydym yn rhoi sgôr i waith adsefydlu.

Data o achosion a arolygwyd:²³

2.1. Asesiad (datrysiadau llys)	
Ydy'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi peidiad y plentyn?	
a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, yn cynnwys agweddau'r plentyn tuag at eu troseddu a'u cymhelliant i droseddu?	100%
b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion amrywiaeth yn ddigonol?	67%
c) Ydy'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, yn cynnwys cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach y plentyn?	100%
d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei dal gan asiantaethau eraill?	100%
e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau gwarchoddedig y plentyn?	100%
f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r rhwystrau strwythurol allweddol sy'n wynebu'r plentyn?	100%
g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant i newid y plentyn, a'u tebygolrwydd o ymgysylltu â'r datrysiad llys?	100%
h) A yw'r asesiad yn rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr, a chyfleoedd i sicrhau cyfiawnder adferol?	100%
i) A yw'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn eu hasesiad, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau?	100%
Ydy'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) Ydy'r asesiad yn nodi a dadansoddi'n glir unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn?	100%
b) Ydy'r asesiad yn tynnu'n ddigonol ar ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	100%
c) Ydy'r asesiad yn dadansoddi rheoliadau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	100%

²³ Nid yw rhai o'r cwestiynau'n berthnasol bob tro.

Ydy'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) Ydy'r asesiad yn adnabod ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i bobl eraill a achosir gan y plentyn, yn cynnwys adnabod pwy sydd dan risg a natur y risg hwnnw?	33%
b) Ydy'r asesiad yn tynnu'n ddigonol ar ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys ymddygiad ac euogfarau o'r gorffennol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	100%
c) Ydy'r asesiad yn dadansoddi'r rheolaethau a'r ymyraethau i reoli a lleihau'r risg o niwed a gyflwynir gan y plentyn?	100%

2.2. Cynllunio (Datrysiadau llys)	
Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi peidiad y plentyn?	
a) Ydy'r cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sy'n fwyaf tebygol o gefnogi peidiad, gan dalu digon i sylw i'r amseriadau sydd ar gael a'r angen am ddilyniannu?	100%
b) Ydy'r cynllunio'n ymdrin yn ddigonol â materion amrywiaeth?	100%
c) Ydy'r cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i amgylchiadau personol y plentyn, yn cynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
d) Ydy'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i gryfderau a ffactorau gwarchoddedig y plentyn, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain fel y bo'r angen?	100%
e) Ydy'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i lefelau aeddfedrwydd a gallu'r plentyn, eu cymhelliant i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain fel y bo'r angen?	100%
f) Ydy'r cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr?	100%
g) Ydy'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn y cynllunio, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau?	100%

Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) Ydy'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, gan fynd i'r afael â'r risgiau'n ddigonol?	100%
b) Ydy'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol, ac a oes digon o aliniad gyda chynlluniau eraill (e.e. diogelu plant neu gynlluniau gofal) mewn perthynas â'r plentyn?	100%

c) Ydy'r cynllunio'n nodi'r rheoliadau a'r ymyraethau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	100%
d) Ydy'r cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn effeithiol ac angenrheidiol i reoli'r risgiau hynny a gafodd eu nodi?	67%
Ydy'r cynllunio'n canobwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) Ydy'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, gan ymdrin yn ddigonol â'r risg o ffactorau niwed?	67%
b) Ydy'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	100%
c) Ydy'r cynllunio'n ymdrin ag unrhyw bryderon penodol a risgiau sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a photensial?	33%
d) Ydy'r cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyraethau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill?	67%
e) Ydy'r cynllunio'n nodi'r trefniadau wrth gefn sy'n angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi eu canfod?	67%

2.3. Gweithrediad a darpariaeth (datrysiadau llys)

Ydy gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi peidiad y plentyn yn effeithiol?

a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi peidiad, gan roi digon o sylw i ddilyniannu a'r amseriadau sydd ar gael?	100%
b) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cyfrif am broblemau amrywiaeth y plentyn?	100%
c) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, yn cynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill?	100%
d) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella'r ffactorau gwarchoddedig?	100%
e) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr?	100%
f) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd i integreiddio yn y gymuned, yn cynnwys cael gafael ar wasanaethau ar ôl yr oruchwyliaeth?	100%
g) A roddir sylw digonol i annog a galluogi cydymffurfriad y plentyn â gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid?	100%
h) A gymerir camau gorfodi pan fo'n briodol?	67%

Ydy gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	
a) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	100%
b) Ydy cyfranogaeth sefydliadau eraill yn y broses o gadw'r plentyn yn ddiogel wedi ei gydlynu'n ddigon da?	100%
Ydy gweithrediad a darpariaeth y gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	
a) Ydy'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed?	100%
b) A roddir digon o sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	67%
c) Ydy cyfranogaeth asiantaethau eraill yn y gwaith o reoli'r risg o niwed wedi ei gydlynu'n ddigon da?	67%

2. 4. Adolygu (datrysiadau llys)

Ydy'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi peidiad y plentyn?	
a) Ydy'r adolygu'n adnabod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â pheidiad?	33%
b) Ydy'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau'r plentyn a gwella ffactorau gwarchoddedig?	33%
c) Ydy'r adolygu'n cynnwys dadansoddiad o, ac ymateb i, ffactorau amrywiaeth?	0%
d) Ydy'r adolygu'n ystyried amgylchiadau personol, yn cynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	67%
d) Ydy'r adolygu'n ystyried y lefelau cymhellant ac ymgysylltu ac unrhyw rwystrau perthnasol?	0%
e) Ydy'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystyrlon yn y broses o adolygu eu cynnydd a'u hymgysylltiad, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau?	100%
f) Ydy'r adolygu'n arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o waith i gefnogi peidiad?	33%
Ydy'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) Ydy'r adolygu'n adnabod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles?	67%

b) Ydy'r adolygu wedi ei hysbysu gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	100%
c) Ydy'r adolygu'n arwain at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o waith i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	0%
Ydy'r adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) Ydy'r adolygu'n adnabod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n berthnasol i'r risg o niwed?	67%
b) Ydy'r adolygu wedi ei hysbysu gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n cymryd rhan yn y gwaith o reoli'r risg o niwed?	100%
c) Ydy'r adolygu'n arwain at wneud yr addasiadau angenrheidiol yng nghynllun parhaus yr holl waith i reoli a lleihau'r risg o niwed?	33%

3.1. Asesiad (datrysiadau tu allan i'r llys)

Ydy'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi peidiad y plentyn?

a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, yn cynnwys cydnabyddiaeth y plentyn o gyfrifoldeb am eu troseddu, eu hagweddau tuag ato a'r cymhelliant am eu troseddu?	100%
b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion amrywiaeth yn ddigonol?	100%
c) Ydy'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, yn cynnwys cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach y plentyn?	100%
d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei dal gan asiantaethau eraill?	67%
e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau gwarchoddedig y plentyn?	100%
f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r rhwystrau strwythurol allweddol sy'n wynebu'r plentyn?	67%
g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau'r plentyn o aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant i newid?	100%
h) A yw'r asesiad yn rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr, a chyfluoedd i sicrhau cyfiawnder adferol?	100%
i) Ydy'r plentyn a'u rheini neu ofalwyr wedi eu cynnwys yn ystyrion yn eu hasesiad, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau?	100%

Ydy'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) Ydy'r asesiad yn nodi a dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn yn glir?	33%
b) Ydy'r asesiad yn tynnu'n ddigonol ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	100%
Ydy'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) Ydy'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, yn cynnwys canfod pwy sydd dan risg a beth yw natur y risg hwnnw?	100%
b) Ydy'r asesiad yn tynnu'n ddigonol ar ffynonellau o wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys unrhyw asesiadau eraill a gafodd eu cwblhau, a thystiolaeth arall o ymddygiad gan y plentyn?	67%

3.2. Cynllunio (datrysiadau y tu allan i'r llys)

Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi peidiad y plentyn?

a) Ydy'r cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sy'n fwyaf tebygol o gefnogi peidiad, gan dalu sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniannu?	100%
b) Ydy'r cynllunio'n ymdrin yn ddigonol â materion amrywiaeth?	100%
c) Ydy'r cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i amgylchiadau personol y plentyn, yn cynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	100%
d) Ydy'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i gryfderau a ffactorau gwarchoddedig y plentyn, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain fel y bo'r angen?	100%
e) Ydy'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i lefelau aeddfedrwydd y plentyn, eu gallu a'u cymhelliant i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain fel y bo'n angenrheidiol?	100%
f) Ydy'r cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i gyfleoedd i integreiddio i'r gymuned, yn cynnwys mynediad i wasanaethau prif ffrwd yn dilyn cwblhau gwaith datrysiad y tu allan i'r llys?	100%
g) Ydy'r cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr?	100%
h) Ydy'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith cynllunio, ac a roddir ystyriaeth i'w sylwadau?	100%

Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) Ydy'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, gan fynd i'r afael â'r risgiau'n ddigonol?	67%
b) Ydy'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol, ac a oes digon o aliniad â chynlluniau eraill (e.e. diogelu plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn?	67%
c) Ydy'r cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi cael eu hadnabod?	67%

Ydy'r cynllunio'n canobwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

a) Ydy'r cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, gan ymdrin yn ddigonol â'r risg o ffactorau niwed?	100%
b) Ydy'r cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	67%
c) Ydy'r cynllunio'n ymdrin ag unrhyw bryderon penodol a risgiau sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a photensial?	100%
d) Ydy'r cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny a gafodd eu pennu?	100%

3.3. Gweithredu a dapraru (datrysiadau tu allan i'r llys)

Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi peidiad y plentyn yn effeithiol?

a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi peidiad, gan roi digon o sylw i ddilyniannu a'r amseriadau sydd ar gael?	100%
b) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cyfrif am broblemau amrywiaeth y plentyn?	100%
c) A yw darpariaeth y gwasanaeth yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, yn cynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill.	100%
d) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'u rhieni neu ofalwyr?	100%
e) A roddir digon o sylw i annog a galluogi cydymffurfriad y plentyn â gwaith y Tîm Troseddau Ieuencid?	100%
f) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddiad yn y gymuned, yn cynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd?	100%

Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?

a) Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	67%
b) A yw cyfranogaeth asiantaethau eraill yn y gwaith o gadw'r plentyn yn ddiogel wedi ei ddefnyddio a'i gydlynu'n ddigon da?	67%

Ydy darpariaeth y gwasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

a) Ydy'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed?	100%
b) A roddir digon o sylw i ddiogelu dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	100%